# Cyfrifon Cryno NHS Cymru 2000-01

## RHAGAIR

### Rhagymadrodd

1. Mae Adran 98(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) 1977 yn ei gwneud yn ofynnol i holl sefydliadau'r NHS yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol a'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Mae'n rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio gan archwilwyr allanol ar gyfer yr NHS yng Nghymru a benodir gan y Comisiwn Archwilio.

2. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad baratoi, ar unrhyw ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, gyfrifon cryno o gyfrifon unigol sefydliadau NHS Cymru a'u trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 30 Tachwedd neu cyn hynny. Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio ac ardystio'r cyfrifon cryno, a chyflwyno adroddiad arnynt, a gall edrych ar gyfrifon y sefydliadau unigol, unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â hwy ac unrhyw adroddiadau arnynt gan archwilwyr.

3. Mae cyfrifon blynyddol holl sefydliadau NHS Cymru wedi'u harchwilio ac mae'r cyfrifon cryno hyn wedi'u seilio ar y ffigurau archwiliedig hynny. Mae'r cyfrifon hyn yn cydategu manylion y gwariant ar ofal iechyd a geir yng nghyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2000-01.

4. Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrif NHS Cymru, mae gennyf gyfrifoldeb ariannol am wariant y gwasanaeth iechyd. Gan hynny, yr wyf wedi llofnodi cyfrifon cryno yr awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau'r NHS, a'r cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru.

5. Mae ar brif weithredwyr sefydliadau unigol yr NHS yng Nghymru ddyletswydd i'w priod fyrddau ac, yn eu rôl fel swyddogion atebol y sefydliadau hynny, ddyletswydd i mi, fel y Swyddog Cyfrif.

### Cyfrifon Cryno

6. Mae tri chyfrif cryno ar gyfer NHS Cymru wedi'u paratoi, un i bob un o'r canlynol:

- y pum awdurdod iechyd yng Nghymru;
- y 15 ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru; a'r
- cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth gan yr awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru.

**(*a*) *Awdurdodau iechyd***

7. Sefydlwyd awdurdodau iechyd o dan Adran 8 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i arfer unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd a gyfarwyddir gan y Cynulliad. Eu prif swyddogaethau yw paratoi strategaethau a chynlluniau i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth, comisiynu gwasanaethau oddi wrth ddarparwyr gofal iechyd a gwneud taliadau i gontractwyr gofal sylfaenol.

8. Mae cyfrif cryno yr awdurdodau iechyd yng Nghymru wedi'i seilio ar gyfrifon archwiliedig y pum awdurdod iechyd yng Nghymru a chyfrif archwiliedig y taliadau am wasanaethau deintyddol cyffredinol yng Nghymru a wnaed gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol.

9. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad *Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau* ym mis Tachwedd 2000 sy'n awgrymu prinder posibl yn refeniw'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru am fod unigolion nad ydynt yn gymwys i gael eu hesemptio rhag talu am bresgripsiynau yn cael cyffuriau a chyfarpar yn ddi-dâl er gwaethaf hynny. Mae hyn yn codi o gyfuniad o fethiant mewn systemau i sicrhau bod ymholiadau esemptio digonol ar gael a thwyll bwriadol i osgoi'r rheolau hynny. O'r herwydd, mae'r archwilwyr yr awdurdodau iechyd wedi amodi'r farn archwilio mewn perthynas â rheoleidd-dra y prinder posibl hwn mewn incwm o bresgripsiynau.

***(b) Ymddiriedolaethau'r NHS***

10. Sefydlwyd ymddiriedolaethau'r NHS o dan Adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990. Ymddiriedolaethau'r NHS sy'n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd yr NHS mewn ysbytai ac yn y gymuned. Oddi wrth gomisiynwyr gofal iechyd y daw'r rhan fwyaf o'u hincwm, sef yr awdurdodau iechyd yng Nghymru yn bennaf.

11. Cafwyd y cam olaf yn ailgyfluniad ymddiriedolaethau'r NHS, sef creu Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro, ar 1 Ebrill 2000, gan leihau nifer yr ymddiriedolaethau i 15 ar 1 Ebrill 2000.

12. Mae cyfrif cryno ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru wedi'i seilio ar gyfrifon archwiliedig y pymtheg ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru. Sicrhaodd pob un o'r pymtheg farn archwilio ddiamod gan eu harchwilwyr allanol.

***(c) Cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth***

13. Mae gan yr awdurdodau iechyd bŵer o dan Adran 90 o Ddeddf yr NHS 1977 i dderbyn, dal a gweinyddu cronfeydd ar ymddiriedaeth at bob diben neu at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd. Mae Adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 yn ymestyn y pŵer hwn i ymddiriedolaethau'r NHS.

14. Mae cyfrif cryno'r cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth wedi'i seilio ar gyfrifon archwiliedig y cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth gan holl sefydliadau NHS Cymru, ac mae'n cael ei gyflwyno yn unol â'r Datganiad ar Arferion a Argymhellir a gyhoeddir gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr. Mae pob corff NHS yn rhoi i'r Comisiynwyr Elusennau gopi o gyfrifon archwiliedig y cronfeydd a ddelir ganddynt ar ymddiriedaeth yn y ffurf a ddangosir yn y Datganiad Arferion a Argymhellir.

15. Cafodd pob un o'r ugain cronfa a ddelir ar ymddiriedaeth farn archwilio ddiamod.

## Y Perfformiad yn erbyn y Dyletswyddau Ariannol Statudol

### *Awdurdodau Iechyd*

16. Nodir dyletswydd ariannol statudol yr awdurdodau iechyd yn Adran 97A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, sef sicrhau nad yw'r gwariant y gellir ei briodoli i berfformiad yr awdurdod iechyd yn fwy na chyfanswm y symiau a ddyrennir i'r awdurdod iechyd am y flwyddyn honno o dan adran 97 (1). Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r awdurdodau iechyd aros o fewn eu terfynau arian bob blwyddyn ariannol.

17. Yn 2000-01, llwyddodd pob un o'r pum awdurdod iechyd i fodloni'r ddyletswydd statudol hon.

### *Ymddiriedolaethau'r NHS*

18. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 yn diffinio dyletswydd ariannol ymddiriedolaeth NHS fel hyn "Every NHS trust shall ensure that its revenue is not less than sufficient, taking one financial year with another, to meet outgoings properly chargeable to revenue account". Fel arfer, cymerir bod y diffiniad yn golygu nad yw cyfanswm eu gwariant yn fwy na'u hincwm, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall. Cyfeirir at hon fel y ddyletswydd i dalu'r costau a dylai'r ymddiriedolaethau gynllunio i fodloni'r ddyletswydd hon bob blwyddyn. Mae'r ddyletswydd statudol i dalu'r costau, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall, fel rheol wedi'i seilio ar gyfnod treigl o dair blynedd, a all gael ei estyn yn bum mlynedd drwy gytundeb gyda'r Cynulliad.

19. Mae'r ddyletswydd wedi'i hymestyn i bum mlynedd ar gyfer dwy ymddiriedolaeth, sef Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen ac Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion, a hynny i gyd-fynd â chyfnod eu hadferiad ariannol arfaethedig. Er bod un ymddiriedolaeth NHS, sef Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, wedi adrodd diffyg yn 2000-01 nid oes yr un ymddiriedolaeth NHS wedi methu yn y ddyletswydd i dalu'r costau.

20. Yr oedd gwarged cyffredinol incwm a gwariant ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru ar gyfer 2000-01 yn £7.632 miliwn, o'i gymharu â diffyg o £0.706 miliwn ym 1999-2000.

21. Yn ystod y flwyddyn ariannol, yr oedd saith o'r pymtheg ymddiriedolaeth NHS ar

eu ffordd tuag at adferiad ariannol oherwydd problem ariannol isorweddol ddifrifol. Darparwyd cyfanswm o £19.162 miliwn o gymorth strategol anghylchol naill ai oddi wrth yr awdurdodau iechyd (£18.412 miliwn) neu yn uniongyrchol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol (£0.750 miliwn) i helpu gydag anawsterau arian yn ystod y broses adfer. Heb y cymorth strategol eithriadol hwn, buasai sefyllfa ymddiriedolaethau'r NHS yn ddiffyg net o £11.530 miliwn.

22. Er mwyn cymharu 'tebyg â'i debyg', yr oedd diffyg 1999-2000 yn cynnwys £9.578 miliwn o incwm eithriadol i wneud yn iawn am y golled gyfrifydda a gafwyd ym 1998-99 yn sgil cyflwyno FRS11. Ffigur mwy cymharus ar gyfer 1999-2000 felly oedd diffyg o £10.284 miliwn. Dangosir y sefyllfaoedd hyn, heb gynnwys yr incwm eithriadol, ar wyneb y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**Y Perfformiad yn erbyn y Dyletswyddau Gweinyddol**

***Dyletswydd yr awdurdodau iechyd i dalu eu costau***

23. O 2000-01 ymlaen, gosodwyd dyletswydd ar yr awdurdodau iechyd i dalu eu costau, gan ddefnyddio diffiniad tebyg i ddiffiniad ymddiriedolaethau'r NHS; sef targed tair-blynedd treigl o gydbwyso'r incwm a'r gwariant. Cyflwynwyd y targed hwn er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r NHS yng Nghymru yn cael ei mesur ar sail gyson gan fod sefydlogrwydd ariannol cyffredinol yn gofyn bod yr incwm a'r gwariant yn gytbwys ym mhob rhan o'r NHS.

24. Yn Neddf Llywodraeth ac Adnoddau, cyflwynwyd dyletswydd statudol newydd i beidio â mynd yn uwch na therfyn ar adnoddau. Nid yw Cyllidebu Adnoddau wedi ei gyflwyno'n llawn hyd yn hyn yng Nghymru ac felly nid yw'r ddarpariaeth newydd wedi dechrau eto. Cafodd cynllun newydd ar gyfer yr NHS yng Nghymru *Gwella Iechyd yng Nghymru* ei lansio yn Ionawr 2000 pan gyhoeddwyd y câi'r awdurdodau iechyd yng Nghymru eu dileu. Gan hynny, nid oes bwriad dechrau defnyddio terfynau ar adnoddau'r awdurdodau iechyd. Er hynny, mae'r ddyletswydd weinyddol newydd hon yn sicrhau ei bod yn ofynnol i'r awdurdodau iechyd weithredu eu systemau ariannol ar sail arian ac ar sail incwm a gwariant yn y cyfnod pontio hwn.

25. Creodd pob un o'r pum awdurdod iechyd warged yn 2000-01, sef cyfanswm o £16.792 miliwn. Mae sawl ffactor yn gyfrifol am y gwarged, gan gynnwys incwm anghylchol i ariannu ôl-gostau'r Gyfarwyddeb Amserau Gwaith Ewropeaidd a godwyd ar wariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol, llithriant ar ddatblygiadau newydd, tanwario ar gyllideb y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a gwariant llai nag a ragwelwyd ar y gyllideb rhagnodi cyffuriau.

***Terfyn arian allanol***

26. Fel rhan o broses rheoli gwariant cyhoeddus, mae'r Cynulliad yn gosod gofynion ar bob ymddiriedolaeth NHS ynghylch arian allanol. Cyfrifiad pob terfyn sy'n pennu faint y caiff ymddiriedolaeth ei dderbyn o ffynonellau allanol, sef y Cynulliad fel rheol, i ariannu gwariant cyfalaf. Erbyn hyn, nid yw'r ymddiriedolaethau'n cael benthyca arian cyn bod ei angen a rhaid iddynt

gyflwyno datganiadau manwl ar lif arian i'r Cynulliad er mwyn cael eu hawdurdodi i dynnu cyfalaf difidend cyhoeddus. Nid yw'r targed hwn yn gymwys i'r awdurdodau iechyd.

27. Yn 2000-01, pennwyd terfyn arian allanol cyffredinol ymddiriedolaethau'r NHS yn £9.949 miliwn (negyddol) a'r union ofynion ariannu allanol oedd £10.438 miliwn (negyddol). Mae'r gwerth negyddol yn adlewyrchu'r ffaith bod dibrisiant mewnol yn fwy na gwariant cyfalaf ymddiriedolaethau'r NHS (hynny yw, yr oedd yr arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf newydd, offer a chynnal ystadau a ddarparwyd gan y Cynulliad yn llai na chost dibrisiant blynyddol). Gan hynny, rhoddwyd ad-daliad net o Gyfalaf Difidend Cyhoeddus i'r Cynulliad.

28. Llwyddodd pob ymddiriedolaeth yng Nghymru i gadw at ei therfynau arian allanol.

***Dyletswydd amsugno costau cyfalaf***

29. Mae'r Cynulliad yn disgwyl i ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru fodloni'r ddyletswydd i amsugno costau cyfalaf, sy'n mesur ad-daliadau difidendau a llogau ar fenthyciadau'r llywodraeth fel canran o'r asedau net perthnasol cyfartalog. Mae'r mesur wedi'i ddylunio i wella'r rheolaeth dros amsugno costau cyfalaf. Bernir bod ymddiriedolaethau sy'n sicrhau cyfradd rhwng 5.5% a 6.5% wedi cyrraedd eu targed.

30. Bodlonodd deg o ymddiriedolaethau'r NHS y targed angenrheidiol o ran y gyfradd amsugno costau cyfalaf. Yr oedd cyfraddau amsugno costau cyfalaf y lleill yn amrywio rhwng 4.6% a 5.4% a rhwng 7.2% a 7.8%.

31. Bwriad y targed ariannol hwn yw sicrhau bod ymddiriedolaethau'r NHS yn rhagfynegi eu costau cyfalaf yn gywir am y cyfnodau ariannol nesaf ond mae yna anawsterau ymarferol yn gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch dyraniadau cyfalaf, ailbrisio ystadau a chynnydd datblygiadau newydd. Yn hanesyddol mae wedi bod yn anodd penderfynu i ba raddau y mae ymddiriedolaethau'r NHS wedi cyrraedd y targed hwn oherwydd effaith enfawr yr ailbrisiad ystadau diwethaf ar y costau cyfalaf a ragwelwyd. Gan hynny, cafwyd peth amheuaeth yn yr NHS a gafodd y targed ei gyrraedd neu beidio. Mae adolygiad o'r targed ariannol hwn ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod gan ymddiriedolaethau'r NHS fwy o reolaeth dros gyrraedd y targed, gan y bydd cyflwyno cyllidebu adnoddau yn yr NHS yn golygu y bydd rhagolygon costau cyfalaf cywir yn dod yn fwy hanfodol.

32. Nid yw'r targed hwn yn gymwys i'r awdurdodau iechyd.

## Crynodeb o fodloni'r dyletswyddau ariannol

33. Ceir crynodeb o berfformiad pob sefydliad unigol yn eu dyletswyddau ariannol yn Atodiad 1.

34. Cafodd yr holl ddyletswyddau ariannol eu bodloni, ac eithrio'r pum ymddiriedolaeth NHS a fethodd â bodloni'r ddyletswydd i amsugno costau cyfalaf, fel y'i disgrifiwyd uchod.

**Cod talu'n brydlon**

35. Er nad yw'n ddyletswydd ariannol ffurfiol, mae'n ofynnol i awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS dalu eu credydwyr yn unol â tharged Trysorlys EM ar gyfer cydymffurfio â thaliadau'r sector cyhoeddus. Y targed yw talu pob credydwr o fewn 30 diwrnod ar ôl cael y nwyddau neu anfoneb ddilys (p'un bynnag yw'r olaf) oni chytunwyd ar delerau talu eraill gyda'r cyflenwr.

36. Dangosir perfformiad pob awdurdod iechyd ac ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru, gan ddangos canran y biliau a dalwyd o fewn y targed o 30 diwrnod, a pha ganran o werth cyfan y biliau y maent yn ei chynrychioli, yn y tabl yn Atodiad 4 i'r Rhagair hwn. Yr oedd nifer y biliau a dalwyd o fewn 30 diwrnod yn amrywio rhwng 66.6% a 95.2%, sef 81% ar gyfartaledd. O ran gwerthoedd, cafwyd amrediad rhwng 68.6% a 99.3%, sef 94.7% ar gyfartaledd.

37. Ceir tuedd gyffredinol tuag at welliant ers y flwyddyn flaenorol, er bod yna nifer o sefydliadau sy'n dal yn methu â chyrraedd perfformiad derbyniol. Yr wyf yn credu bod hyn yn annerbyniol ac yr wyf yn bwriadu cyflwyno hyn fel targed ariannol ffurfiol yn 2002-03. Mae deuddeg o'r pymtheg ymddiriedolaeth NHS wrthi yn cyflwyno system ariannol gyffredin a ddylai eu helpu i gyrraedd y targed hwn. Mae gweithgor wedi'i sefydlu gan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda'r NHS, i sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu mabwysiadu drwy holl sefydliadau'r NHS i fod yn barod ar gyfer gosod y rheol dynnach o 2002-03 ymlaen.

**Materion y Fantolen**

***Dyled yr NHS***

38. O ganlyniad i ddiffygion hanesyddol yn ardal Dyfed Powys ac yn yr hen ymddiriedolaethau a unwyd erbyn hyn i ffurfio Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro, mae'r Cynulliad wedi darparu broceriaeth (yn achos yr awdurdodau iechyd), a blaendaliadau benthyciadau Cyfalaf Difidend Cyhoeddus (yn achos ymddiriedolaethau'r NHS) er mwyn datrys problemau hylifedd yn y tymor canol.

39. Y ddyled gronnol gyda'r Cynulliad a gynhwyswyd yng nghyfrif cryno'r awdurdodau iechyd yw £30.389 miliwn a rhyw £12.486 miliwn yng nghyfrif ymddiriedolaethau'r NHS. Mae'r polisi cyfredol o roi cymorth strategol anghylchol i'r cyrff hynny sydd mewn diffyg, ar yr amod bod ganddynt gynllun adfer sydd wedi'i gymeradwyo'n llawn ac y gellir ei wireddu, wedi arwain at sadio'r ddyled hanesyddol hon yn 2000-01. Ceir manylion dyledion pob un o gyrff yr NHS yn Atodiad 3.

40. Ar hyn o bryd, y cynllun yw i'r dyledion hyn gael eu had-dalu drwy gyfrwng twf yn y dyfodol pan fydd y cynlluniau adfer, ar gyfer sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn y flwyddyn, wedi'u gwireddu.

***Darpariaethau Esgeulustod Clinigol***

41. Ar 31 Mawrth 2001, yr oedd cyfanswm y rhwymedigaethau am esgeulustod clinigol yn £66.5 miliwn yn ymddiriedolaethau'r NHS a £60.2 miliwn arall yn yr awdurdodau iechyd. Cyfrifwyd y darpariaethau hyn a'r credydwyr ar sail ceisiadau yn erbyn y sefydliad, pan asesir ei bod yn debyg y caiff y cais ei setlo.

42. Nid yw cyfrifiadau'r darpariaethau a geir yn y cyfrifon cryno yn cynnwys amcangyfrif o £218.648 miliwn arall ar gyfer ceisiadau lle honnwyd bod esgeulustod meddygol neu esgeulustod cyflogwyr wedi digwydd heb i'r honiad gael ei dderbyn yn ddiddadl. Datgelir y rhain yn nodiadau'r cyfrifon fel rhwymedigaethau annisgwyl.

43. Sylwer bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo esgeulustod clinigol yn wahanol i'r ymdriniaeth yng nghyfrif cryno yr NHS yn Lloegr, sydd hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer digwyddiadau a ddigwyddodd ond na roddwyd gwybod amdanynt.

**Cronfa Risg Cymru**

44. Sefydlwyd Cronfa Risg Cymru (y Gronfa Risg) er mwyn helpu holl awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau NHS Cymru i reoli risgiau a setlo ceisiadau. Cyd-drefniant hunan-yswirio yw'r Gronfa ar gyfer pob risg sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r NHS, ac eithrio tarfu ar fusnes ac yswiriant moduron. Mae pob cais a wneir gan ymddiriedolaeth NHS yn cario lefel gor-dâl newidiol sydd wedi'i seilio ar sut mae'r ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio â Safonau Rheoli Risg Cymru.

45. Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithredu'r Gronfa Risg, ac mae'n cael ei rheoli gan Grŵp Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ymddiriedolaethau'r NHS, yr awdurdodau iechyd a'r Cynulliad.

46. Mae'r cyfraniadau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u cyfrifo i gynhyrchu cronfa a fydd yn ddigonol ar gyfer y taliadau a ragwelir yn ystod y flwyddyn ariannol. Os nad yw'r Gronfa Risg yn ddigon i dalu'r holl geisiadau yn ei herbyn yn ystod y flwyddyn, yna mae'n ofynnol i'r aelodau dalu premiwm ychwanegol. Mae rhwymedigaeth Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych wedi'i chyfyngu i'r arian sydd ar gael yn y Gronfa Risg. Aelodau'r Gronfa Risg sy'n atebol yn y pen draw am dalu ceisiadau, ac mae'r Gronfa Risg wedi'i gwarantu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

47. Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Gronfa Risg £10,417,000 (1999-2000: £12,258,000) a dalwyd drwy gyfrwng premiymau a dalwyd i'r Gronfa gan ei haelodau.

*Ann Lloyd*
Y Swyddog Cyfrif 30 Tachwedd 2001

**Atodiad 1**

## Perfformiad NHS Cymru yn erbyn y Dyletswyddau Ariannol

| | Terfyn Arian | Peidio â methu yn y Ddyletswydd i Dalu Costau | Terfyn Arian Allanol | Cyfradd Amsugno Costau Cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Iechyd Bro Taf | ✔ | ✔ | - | - |
| Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a Rhondda | - | ✔ | ✔ | ✘ |
| Ymddiriedolaeth NHS Felindre | - | ✔ | ✔ | ✘ |
| | | | | |
| Awdurdod Iechyd Dyfed Powys | ✔ | ✔ | - | - |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin | - | ✔ | ✔ | ✘ |
| Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion | - | ✔ | ✔ | ✘ |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| | | | | |
| Awdurdod Iechyd Gwent | ✔ | ✔ | - | - |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| | | | | |
| Awdurdod Iechyd Iechyd Morgannwg | ✔ | ✔ | - | - |
| Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg | - | ✔ | ✔ | ✘ |
| Ymddiriedolaeth NHS Abertawe | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| | | | | |
| Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru | ✔ | ✔ | - | - |
| Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-ddwyrain Cymru | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-orllewin Cymru | - | ✔ | ✔ | ✔ |
| | | | | |
| Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | - | ✔ | ✔ | ✔ |

# Perfformiad Ariannol NHS Cymru fesul ardal awdurdod iechyd

| | Gwarged/(diffyg) | |
|---|---|---|
| | **2000-01 £000** | **1999-2000 £000 (wedi'i ailddatgan)** |
| **Awdurdod Iechyd Bro Taf** | **4,116** | **1,095** |
| Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro | **45** | |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg | **161** | **2,368** |
| Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a Rhondda | **346** | **186** |
| Ymddiriedolaeth NHS Felindre | **491** | **1,358** |
| Ymddiriedolaethau a ddiddymwyd adeg ailgyflunio | | **(4,071)** |
| **Cyfanswm ardal Bro Taf** | **5,159** | **936** |
| | | |
| **Awdurdod Iechyd Dyfed Powys** | **5,222** | **(5,877)** |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin | **14** | **(2,923)** |
| Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion | **246** | **5,281** |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen | **72** | **295** |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys | **403** | **1,003** |
| **Cyfanswm ardal Dyfed Powys** | **5,957** | **(2,221)** |
| | | |
| **Awdurdod Iechyd Gwent** | **314** | **(2,056)** |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent | **16** | **61** |
| **Cyfanswm ardal Gwent** | **330** | **(1,995)** |
| | | |
| **Awdurdod Iechyd Iechyd Morgannwg** | **1,466** | **2,111** |
| Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg | **10** | **37** |
| Ymddiriedolaeth NHS Abertawe | **4,132** | **(976)** |
| **Cyfanswm ardal Iechyd Morgannwg** | **5,608** | **1,172** |
| | | |
| **Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru** | **5,674** | **4,244** |
| Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych | **504** | **(399)** |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-ddwyrain Cymru | **2,757** | **(2,960)** |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-orllewin Cymru | **178** | **(53)** |
| **Cyfanswm ardal Gogledd Cymru** | **9,113** | **832** |
| | | |
| Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | **(1,743)** | **87** |
| | | |
| Pob Awdurdod Iechyd | **16,792** | **(483)** |
| Pob Ymddiriedolaeth NHS | **7,632** | **(706)** |
| | | |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **24,424** | **(1,189)** |
| | | |
| Y Bwrdd Ymarfer Deintyddol | **(146)** | **(458)** |

**Atodiad 3**

## Benthyciadau'r Cynulliad i'r Awdurdodau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau NHS

| | Benthyciadau heb eu talu ar 31 Mawrth 2000 £000 | Symudiadau yn 2000-01 £000 | Benthyciadau heb eu talu ar 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Iechyd** | | | |
| Bro Taf | 7,879 | (1,200) | 6,679 |
| Dyfed Powys | 23,710 | - | 23,710 |
| Gwent | - | | - |
| Iechyd Morgannwg | - | | - |
| Gogledd Cymru | - | | - |
| **Cyfanswm yr Awdurdodau Iechyd** | **31,589** | **(1,200)** | **30,389** |
| | | | |
| **Ymddiriedolaethau'r NHS** | | | |
| Caerdydd a'r Fro | 3,500 | - | 3,500 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,174 | - | 3,174 |
| Ceredigion | 1,300 | - | 1,300 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | - | 212 | 212 |
| Sir Benfro a Derwen | 2,800 | - | 2,800 |
| Abertawe | 4,127 | (4,127) | - |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | - | 1,500 | 1,500 |
| **Cyfanswm Ymddiriedolaethau'r NHS** | **14,901** | **(2,415)** | **12,486** |
| | | | |
| **Cyfanswm Benthyciadau'r Cynulliad** | **46,490** | **(3,615)** | **42,875** |

# Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus

| | Biliau a dalwyd o fewn y targed o 30 diwrnod 2000-01 | | 1999-2000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer y biliau % | Gwerth y biliau % | Nifer y biliau % | Gwerth y biliau % |
| **Awdurdod Iechyd Bro Taf** | 85.9 | 98.4 | 77.7 | 98.1 |
| Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro | 73.1 | 68.6 | | |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg | 86.6 | 89.6 | 81.2 | 86.9 |
| Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a Rhondda | 85.3 | 87.2 | 83.6 | 91.5 |
| Ymddiriedolaeth NHS Felindre | 89.6 | 90.2 | 89.3 | 84.4 |
| | | | | |
| **Awdurdod Iechyd Dyfed Powys** | 95.0 | 99.3 | 79.4 | 98.3 |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin | 88.1 | 94.0 | 84.3 | 91.2 |
| Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion | 91.8 | 88.8 | 86.4 | 83.2 |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen | 87.2 | 94.1 | 77.2 | 80.4 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys | 80.3 | 83.1 | 84.9 | 83.8 |
| | | | | |
| **Awdurdod Iechyd Gwent** | 81.2 | 98.1 | 84.7 | 99.1 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent | 66.6 | 69.8 | 73.6 | 77.1 |
| | | | | |
| **Awdurdod Iechyd Morgannwg** | 93.4 | 99.2 | 85.9 | 99.3 |
| Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg | 82.2 | 84.6 | 72.5 | 77.4 |
| Ymddiriedolaeth NHS Abertawe | 81.8 | 86.6 | 74.3 | 75.6 |
| | | | | |
| **Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru** | 92.4 | 99.0 | 81.6 | 99.1 |
| Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych | 76.9 | 84.0 | 84.3 | 88.0 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-ddwyrain Cymru | 87.3 | 89.6 | 87.9 | 84.2 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-orllewin Cymru | 95.2 | 96.9 | 88.6 | 92.9 |
| | | | | |
| Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 89.4 | 88.9 | 61.2 | 67.1 |
| | | | | |
| **Pob Awdurdod Iechyd** | 90.6 | 98.8 | 81.1 | 98.7 |
| **Pob Ymddiriedolaeth NHS** | 80.5 | 82.4 | 76.5 | 78.1 |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | 81.0 | 94.7 | 76.8 | 93.2 |

# Awdurdodau Iechyd yng Nghymru

# Datganiad o gyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddog Cyfrif

Mae Adran 98(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail y mae'r Trysorlys yn eu cyfarwyddo. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ran y Cynulliad gan y Swyddog Cyfrif ar sail cronnol ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar sefyllfa'r awdurdodau iechyd yng Nghymru ar ddiwedd y flwyddyn, a'u hincwm a'u gwariant, cyfanswm eu henillion a'u colledion cydnabyddedig a'u llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cynulliad:

cadw at y cyfarwyddyd cyfrifydda a roddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifydda a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifydda addas yn gyson;

gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol;

datgan a gafodd y safonau cyfrifydda cymwys eu dilyn neu beidio a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a

pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Cyfarwyddwr NHS Cymru yn Swyddog Cyfrif ar gyfer Cyfrif Cryno'r awdurdodau iechyd yng Nghymru. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano a'i chyfrifoldeb am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrif Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys

# Datganiad ar y System Rheolaeth Ariannol Fewnol

Fel Swyddog Cyfrif Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwariant yr NHS, fi sy'n gyfrifol am gynnal system effeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol. Fi hefyd sy'n penodi Swyddog Atebol pob un o awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru. Cyfrifoldeb pob Swyddog Atebol yw sicrhau bod system effeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol ar gael yn eu sefydliadau unigol.

Mae'r systemau hyn yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig, ac nid sicrwydd absoliwt, fod asedau'n cael eu diogelu, trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n iawn, a bod camgymeriadau neu afreoleidd-dra sylweddol naill ai yn cael eu hatal neu eu darganfod o fewn cyfnod amserol.

Yr wyf wedi rhoi canllawiau i bob Swyddog Atebol ynghylch llywodraethu corfforaethol a systemau ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol, gan nodi yn benodol yr isafswm safonau rheoli a ddylai gael eu sefydlu. Yr wyf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Swyddog Atebol wneud datganiad ar eu system rheolaeth ariannol fewnol, wedi'i ategu ag adroddiad gan archwilydd, gyda'u cyfrifon blynyddol.

Am y flwyddyn ariannol 2000-01, gwnaeth holl awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS ddatganiad ar y system ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol. Dywedodd tri awdurdod iechyd fod ganddynt wendidau yn eu systemau neu eu bod heb fodloni'r isafswm safonau ar gyfer rheolaeth drwy gydol y flwyddyn. Yr wyf wedi adolygu'r datganiadau hyn ac adroddiadau'r archwilwyr sy'n cyd-fynd â hwy ac yr wyf yn fodlon bod y materion a godwyd yn cael sylw priodol gan y Swyddogion Atebol.

Mae'r system ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reoli gyson, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, sy'n cynnwys gwahanu dyletswyddau ac amrywiol lefelau dirprwyo. Yn benodol, mae'r system yn cynnwys:

* Systemau cyllidebu cynhwysfawr;
* Adolygiadau rheolaidd gan dîm uwch-reolwyr fy Nghyfarwyddiaeth ar adroddiadau ariannol misol chwarterol a blynyddol, sy'n dynodi'r perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon a wnaed;
* Pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
* Canllawiau pendant ar reoli buddsoddiadau cyfalaf; a
* Gweithdrefnau i ofalu am reolaeth prosiectau.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wasanaeth archwilio mewnol sy'n gweithredu yn ôl safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei wneud ar sail dadansoddiad o'r risg y mae'r corff yn agored iddi, ac mae ei gynlluniau archwilio blynyddol yn cael eu seilio ar y dadansoddiad hwn. Mae'r dadansoddiad risg a chynlluniau'r archwilwyr mewnol ar gyfer gwariant yr NHS a reolir gan Gyfarwyddiaeth yr NHS yn cael eu hategu gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cynulliad. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi adroddiad blynyddol i Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch gweithgareddau'r gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer

Mae nodyn 30 ar gyfrifon cryno'r awdurdodau iechyd yn esbonio bod prinder posibl yn y refeniw sy'n ddyledus i bob un o'r pum awdurdod mewn perthynas ag incwm o daliadau am bresgripsiynau. Mae'r prinder posibl yn deillio o'r ffaith bod unigolion nad ydynt o bosibl yn gymwys i gael eu hesemptio rhag talu yn cael cyffuriau a chyfarpar am ddim. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio gyda'r awdurdodau iechyd i roi sylw i'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2002.

Mae fy adolygiad innau o effeithiolrwydd y system ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol yn cael ei fwydo gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, a sylwadau a gyflwynir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli a'u hadroddiadau eraill.

Ann Lloyd
Cyfarwyddwr NHS Cymru a Swyddog Cyfrif

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cyffredinol Cymru

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 18 i 38 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u patatoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifydda a nodir ar dudalennau 22 i 25.

**Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrif a'r Archwilydd**

Fel y disgrifir ar dudalen 13, Cyfarwyddwr NHS Cymru, fel Swyddog Cyfrif, sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir odani ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrif hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Mae fy nyletswyddau i, fel archwilydd annibynnol, wedi'u sefydlu drwy statud ac yn cael eu harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Yr wyf yn adrodd fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol cryno yn rhoi golwg gwir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir odani ac a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio, ym mhob ystyr berthnasol, at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Yr wyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Yr wyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 14 a 15 yn adlewyrchu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys ar "Corporate governance: statement on the system of financial control". Yr wyf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn gwybod amdani drwy fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad ariannol yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau a datgeliadau trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn golygu asesu'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan y Swyddog Cyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac asesu a yw'r polisïau cyfrifydda yn briodol i'r amgylchiadau, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gyflawni er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod yr incwm a'r gwariant, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yw cyflwyniad yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Fel y dywedir yn nodyn 30, ceir prinder posibl yn refeniw'r awdurdodau iechyd yng Nghymru am fod unigolion nad ydynt yn gymwys i gael esemptiad rhag talu taliadau presgripsiwn er hynny yn cael cyffuriau a chyfarpar am ddim. Serch hynny, cyfyngedig oedd y dystiolaeth am nad yw'r prinder yn cael ei fesur yn ystadegol. Gan hynny, mae'r archwilwyr a benodwyd ar gyfer pob un o'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru wedi amodi eu barnau archwilio mewn perthynas â'r elfen rheoleidd-dra. Ceir rhagor o fanylion am y mater hwn yn fy adroddiad ar y datganiadau ariannol hyn.

**Y farn**

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno yn rhoi golwg gwir a theg ar sefyllfa'r awdurdodau iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2001 ac o'r gwaged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi'u paratoi yn briodol yn unol ag Adran 98(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wneir odani gan y Trysorlys; ac

ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu ac eithrio'r golled bosibl mewn perthynas ag incwm o bresgripsiynau nad oedd modd ei mesur gan yr awdurdodau iechyd a'u harchwilwyr penodedig.

Gweler hefyd fy adroddiad ar dudalennau 42 i 44.

*John Bourn*
Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Rhagfyr 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

# Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | Nodiadau | **2000-2001** **£000** | 1999-2000 £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cyllid refeniw y Cynulliad | 2 | **2,835,866** | 2,600,830 |
| Holl incwm arall y Trysorlys | | **28,408** | 23,530 |
| Incwm heblaw incwm y Trysorlys | | **26,581** | 25,199 |
| Rhyddhau o'r gronfa gyffredinol | 13 | **14,849** | 19,706 |
| | | **2,905,704** | 2,669,265 |
| **Gwariant** | | | |
| Prynu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol | 3 | **783,992** | 732,359 |
| Prynu gwasanaethau gofal iechyd eilaidd | 4 | **1,991,691** | 1,814,762 |
| Gwasanaethau eraill yr awdurdodau | 5 | **56,922** | 79,478 |
| Costau'r awdurdodau iechyd | 6 | **47,595** | 45,967 |
| | | **2,880,200** | 2,672,566 |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu am y flwyddyn** | | **25,504** | (3,301) |
| Defnyddio arbedion Deiliaid Cronfeydd a ariannwyd gan yr Awdurdodau Iechyd | | - | 12,464 |
| Arenillion net adeg gwerthu asedau sefydlog a oedd yn ildiadwy i'r Cynulliad | | **(8,858)** | (10,104) |
| **Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn** | | **16,646** | (941) |

Mae'r holl weithrediadau'n parhau.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 38 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

# Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | Nodiadau | 2000-2001<br>£000 | 1999-2000<br>£000<br>(Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol | 13 | **16,646** | (941) |
| Gwarged nas gwireddwyd adeg ailbrisio asedau sefydlog | 14 | **4,955** | 6,955 |
| Gostyngiadau i'r cronfeydd wrth gefn | | **(14,654)** | (23,800) |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig yn ymwneud â'r flwyddyn** | | **6,947** | (17,786) |
| Addasiad am y flwyddyn flaenorol | | **(22,758)** | |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion ers yr adroddiad diwethaf** | | **(15,811)** | |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 38 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

# Y Fantolen ar 31 Mawrth 2001

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2001 £000 | 31 Mawrth 2000 (Wedi'i ailddatgan) £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau Sefydlog Annirweddol | 10.1 | **30** | 60 |
| Asedau Sefydlog Diriaethol | 10.2 | **98,763** | 108,433 |
| | | **98,793** | 108,493 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 11 | **241,551** | 224,414 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 26 | **6,117** | 1,943 |
| | | **247,668** | 226,357 |
| **Credydwyr** | | | |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12.1 | **216,310** | 201,399 |
| **Asedau cyfredol net** | | **31,358** | 24,958 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **130,151** | 133,451 |
| Credydywyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 12.2 | **30,501** | 37,176 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau | 15 | **50,623** | 54,195 |
| **Asedau net** | | **49,027** | 42,080 |
| **A ariannwyd gan** | | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | 13 | **19,456** | 10,085 |
| Y gronfa ailbrisio | 14 | **29,571** | 31,995 |
| | | **49,027** | 42,080 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 38 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

*Ann Lloyd*
Swyddog Cyfrif

30 Tachwedd 2001

# Datganiad Llif Arian
# am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | Nodiadau | 2000-2001<br>£000 | 1999-2000<br>£000<br>(Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|---|
| Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu | 20 | **3,418** | (7,329) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol | 23 | **9,430** | 1,728 |
| All-lif arian net o ariannu | 24 | **(8,674)** | (1,316) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian** | 26 | **4,174** | (6,917) |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 38 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

# Nodiadau ar y Cyfrifon

**Polisïau cyfrifydda**

## 1.1 Y confensiwn cyfrifydda

Mae’r cyfrif hwn wedi’i baratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi’i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau yng ngwerth asedau sefydlog, ac yn unol ag arferion cyfrifydda safonol yr NHS a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyfarwyddiadau'r Trysorlys. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail gyfun drwy hepgor trafodion a balansau rhwng yr awdurdodau iechyd. Cyfrifon 2000-01 yw'r rhai cyntaf i gael eu cwblhau gan ddefnyddio ffurf Cyfrifon Adnoddau. Yn sgil hyn, mae Cronfa Grantiau'r Llywodraeth a'r Gronfa Gyffredinol yn y Fantolen wedi'u huno i greu Cronfa Gyffredinol. Mae'r Trysorlys wedi rhoi caniatâd i barhau ar ffurf Incwm a Gwariant yn hytach na Datganiad Costau Gweithredu am weddill oes yr Awdurdodau Iechyd cyn i'r rheiny gael eu dileu ar 31 Mawrth 2003.

## 1.2 Asedau sefydlog

Yn 2000-01 nid yw cost cyfalaf yn gymwys mwyach i asedau sefydlog yn unig, ond yn hytrach i'r holl asedau a rhwymedigaethau llai'r balansau arian a ddelir yn Swyddfa'r Tâlfeistr Cyffredinol ac asedau aroddwyd. 6% oedd y gyfradd llog ar gyfer costau cyfalaf yn y ddwy flwyddyn ariannol.

**a. Cyfalafu**

Mae'r holl asedau yn y categorïau canlynol yn cael eu cyfalafu:

i. asedau diriaethol y gellir eu defnyddio am fwy na blwyddyn, ac sydd â chost sy'n gyfwerth â £5,000 neu'n fwy na hynny;

ii. grwpiau o asedau diriaethol sy'n gyd-ddibynnol, neu a gâi eu darparu neu eu hamnewid, fel rheol, fel grwp â chyfanswm eu gwerth yn £5,000 neu’n fwy na hynny, a'u gwerrth unigol yn £250 neu fwy;

iii. mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadur yn cael eu cyfalafu fel asedau annirweddol lle maent yn codi ac yn gallu cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn a'u cost, yn unigol neu fel grwp, yn gyfwerth â £5000 neu'n fwy na hynny; ac

iv. mae asedau annirweddol a ddelir at ddibenion gweithredol yn cael eu prisio yn ôl eu cost hanesyddol.

**b. Prisio**

Prisir asedau sefydlog fel a ganlyn:

i. Mae tir, adeiladau, gosodiadau a ffitiadau yn cael eu datgan yn ôl cost eu hamnewid a hynny ar ôl dibrisiant. Prisir tir ac adeiladau nad oes eu hangen yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored ar gyfer dibenion eraill. Cynhelir prisiadau gan Brisiwr Dosbarth Cyllid y Wlad bob pum mlynedd. Gwnaed y prisiadau diwethaf ar 31Mawrth 1999. Rhwng prisiadau, caiff mynegeion prisiau sy'n briodol i gategori'r ased eu defnyddio i gyrraedd gwerth cyfredol

ii. Prisir offer a ddelir at ddibenion gweithredol yn ôl y gost gyfredol. Prisir offer nad oes eu hangen yn ôl y gost adenilladwy net;

iii. mae asedau annirweddol a ddelir at ddibenion gweithredol yn cael eu prisio yn ôl eu cost hanesyddol.

**c. Dibrisiant**

Codir cost dibrisiant ar bob prif ddosbarth o asedau diriaethol fel a ganlyn:

i. mae adeiladau, gosodiadau a ffitiadau'n cael eu dibrisio yn ôl eu gwerth cyfredol dros weddill oes tybiedig yr asedau, yn unol â chyngor y Prisiwr Dosbarth;

ii. mae offer yn cael eu dibrisio yn ôl y gost gyfredol dros oes tybiedig yr ased.

iii. mae asedau annirweddol yn cael eu dibrisio dros uchafswm o oes o 7 mlynedd.

**d. Elw a cholled wrth werthu asedau sefydlog**

Mae gwaredu tir ac adeiladu'n arwain at ostyngiad cyfatebol yn y Gronfa Gyffredinol. Bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y gwerth llyfr net a'r incwm a geir drwy werthu offer yn arwain at ryddhau swm cyfatebol o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

**e. Amhariad asedau sefydlog**

I sicrhau y cydymffurfir yn llawn â Safon Adrodd Ariannol 11 (Amhariadau Asedau Sefydlog ac Ewyllys Da), mae amhariadau asedau sefydlog nad ydynt yn cael eu talu o'r Gronfa Gronfa Ailbrisio yn cael eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Rhyddheir swm cyfatebol o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant i wrthbwyso costau o'r fath.

**1.3 Colledion a thaliadau arbennig**

Mae iawndal am golledion a thaliadau arbennig yn aml yn swm arwyddocaol, yn enwedig mewn perthynas ag achosion esgeulustod clinigol. I rannu cost y ceisiadau mwyaf, mae'r awdurdodau iechyd yn cymryd rhan mewn trefniant cronfa (Cronfa Risg Cymru), a reolir gan Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych. Mae hyn yn cyd-fynd â Safon Adrodd Ariannol 12.

O dan y trefniadau hyn, mae'r awdurdodau iechyd yn gyfrifol am dalu'r £30,000 cyntaf o unrhyw gais llwyddiannus o dan y categorïau canlynol:

i. rhwymedigaeth gyfreithiol (mae hyn yn cynnwys esgeulustod clinigol ac esgeulustod arall);

ii. unrhyw ddigwyddiad lle collir y gwasanaeth;

iii. achosion o losgi bwriadol neu ddifrod maleisus os oes tystiolaeth i awgrymu bod ymddiriedolaeth wedi diogelu ei hadeiladau ond yr aed iddynt yn anghyfreithlon wedyn; a

iv. costau sy'n deillio o achosion anafiadau personol (e.e. costau cyfreithiol ac iawndal claimants).

Cronfa Risg Cymru sy'n talu costau ceisiadau uwchlaw'r gor-dâl o £35,000.

Mae'r awdurdodau iechyd yn talu cyfraniad blynyddol i Gronfa Risg Cymru. Mae'r cyfraniadau hyn yn cael eu codi ar y treuliau gweithredu pan fyddant yn ddyledus. Mae'r awdurdodau iechyd yn cyfrif am yr holl golledion a thaliadau arbennig y maent yn gyfrifol amdanynt (gan gynnwys esgeulustod clinigol), sy'n cynnwys cymorth sy'n ddyledus o Gronfa Risg Cymru. Maent yn cronni arian ar gyfer yr amcangyfrif o golledion sicr neu debygol a rhwymedigaethau arbennig ac yn datgelu taliadau posibl eraill fel rhwymedigaethau annisgwyl.

### 1.4 Cyfraniadau pensiwn

Mae ymddiriedolaethau'r NHS yn cymryd rhan naill ai yng nghynllun pensiwn yr NHS neu mewn cynlluniau pensiwn preifat. Mae cynllun pensiwn yr NHS yn gynllun statudol, gyda chyfraniadau diffiniedig, y nodir ei ddarpariaethau yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn yr NHS 1995 (O.S.1995 Rhif 300). Mae ymddiriedolaethau'r NHS yn talu cyfraniadau cyflogwr yn ôl y cyfraddau a bennir o dro i dro gan y Cynulliad, fel y'i cynghorir gan Actiwari'r Llywodraeth a chyda chydsyniad y Trysorlys. Cyfradd y cyfraniadau ar gyfer 2000-01 oedd 5% o'r tâl pensiynadwy.

Nid yw costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliadau cynnar yn cael eu hariannu gan y cynllun, ac eithrio pan ymddeolir oherwydd afiechyd. Newidiodd yr Asiantaeth Bensiynau y trefniadau ar gyfer ymdrin â chostau ymddeoliadau cynnar o 6 Mawrth 1995 ymlaen. Ar gyfer ymddeoliadau cynnar a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwnnw, caiff y costau ychwanegol eu hailgodi ar yr ymddiriedolaeth a'u cynnwys yn y treuliau gweithredu wrth iddynt godi. Ar gyfer ymddeoliadau cynnar na chânt eu hariannu gan y cynllun o'r dyddiad hwnnw ymlaen, caiff cyfanswm llawn y rhwymedigaeth ar gyfer y gost ychwanegol ei godi a y Cyfrif Incwm a Gwariant ar yr adeg y bydd yr ymddiriedolaeth yn ymrwymo i'r ymddeoliad, ni waeth beth fo'r dull talu.

### 1.5 Ymchwilio a datblygu

Mae gwariant ar ymchwilio a datblygu yn cael ei godi yn erbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant wrth gael ei dynnu.

### 1.6 Prydlesau

Mae asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid a chontractau hurbwrcas yn cael eu cyfalafu yn y Fantolen a'u dibrisio dros eu hoes defnyddiol. Mae rhenti o dan brydlesau gweithredol yn cael eu codi ar sail ddigyfnewid dros gyfnod telerau'r brydles.

### 1.7 Tâl archwilwyr

Datgelir ffioedd archwilio ar wahân yn nodyn 6 ar gyfer archwilio cyfrifon yr awdurdodau iechyd unigol ac ar gyfer gwaith anstatudol.

### 1.8 Deiliaid Cronfeydd ymhlith Ymarferwyr Cyffredinol

Mae'r holl arbedion sydd wedi'u cronni yn sgil deiliaid cronfeydd yn cael eu cofnodi fel credydwr, sydd i'w had-dalu i'r practisau a arferai ddal cronfeydd. Mae symiau sy'n cael eu dychwelyd neu eu dileu oherwydd amser yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

### 1.9 Incwm Gohiriedig

Mae incwm a gafwyd oddi wrth y Cynulliad wedi'i ohirio tan y flwyddyn ariannol nesaf os ceir arwydd pendant fod yr arian wedi'i ddarparu at ddiben penodol yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2001)35 Cyfrif Incwm Gohiriedig.

### 1.10 Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol

Daeth y newidiadau canlynol i rym yn 2000-2001:-

i) Yn y blynyddoedd blaenorol câi arian oddi wrth y Cynulliad Cendlaethol ei gredydu i incwm yn y flwyddyn. Ar gyfer 2000-2001, gohiriwyd cydnabod incwm o'r fath tan y flwyddyn ganlynol os ceir arwydd pendant fod yr arian wedi'i ddarparu at ddiben penodol a bod rhwymedigaeth yn bodoli i ddefnyddio'r adnoddau yn y dyfodol yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2000) 35.

**1.10 Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol (parhad)**

ii) Erbyn hyn mae'r cyfrifon yn cynnwys cyfuniad cyflawn o gyfrifon y Bwrdd Ymarfer Deintyddol am ei weithgareddau yng Nghymru. O'r blaen, nid oedd y cyfrifon hynny yn cael eu paratoi ar sail gwir a theg.

iii) Mae incwm a gwariant penodol wedi'u hailddosbarthu i gyd-fynd yn agosach â gofynion y Llawlyfr Cyfrifeg Adnoddau.

iv) Mae Cronfa Grant y Llywodraeth a'i Chronfa Incwm a Gwariant wedi'u cyfuno i ffurfio Cronfa Gyffredinol. Hefyd, mae enillion a cholledion a wireddwyd adeg gwaredu asedau sefydlog bellach yn cael eu trosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

Mae ffigurau cymaradwy 1999-2000 wedi'u hailddatgan yn unol â hyn.

**Arian refeniw y Cynulliad** **2**

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|
| Blaendaliadau i awdurdodau iechyd a gynhwyswyd o fewn Costau'r Rhaglen Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | **2,755,382** | 2,522,085 |
| Costau cyfalaf | **4,857** | 6,899 |
| Ariannu anariannol arall | **9,461** | 22,387 |
| Blaendaliadau broceriaeth net | **-** | (12,814) |
| Bwrdd Ymarfer Deintyddol | **66,166** | 62,273 |
| | **2,835,866** | 2,600,830 |

**Prynu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol** **3**

| | Cyfyngiad arian £000 | Dim cyfyngiad arian £000 | Cyfanswm 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | 60,474 | 155,002 | **215,476** | 204,186 |
| Gwasanaethau Fferyllol | 384,814 | 70,786 | **455,600** | 420,952 |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | 73 | 838 | **911** | 553 |
| Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol | - | 21,059 | **21,059** | 20,069 |
| Bwrdd Ymarfer Deintyddol | - | 90,946 | **90,946** | 86,599 |
| | 445,361 | 338,631 | **783,992** | 732,359 |

**Prynu gwasanaethau gofal iechyd eilaidd** **4**

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru | **1,778,969** | 1,640,782 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | **48,736** | 44,806 |
| Cyrff eraill yr NHS nad ydynt yng Nghymru | **90,647** | 79,548 |
| Darparwyr eraill gofal iechyd heblaw'r NHS | **56,478** | 35,482 |
| Gwariant ar wasanaethau cymunedol | **10,835** | 13,414 |
| Eraill | **6,026** | 730 |
| | **1,991,691** | 1,814,762 |

**Gwasanaethau eraill yr awdurdodau** 5

| | 2000-2001 | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| | | (Wedi'i ailddatgan) |
| Gwariant arbedion deiliaid cronfeydd ymhlith ymarferwyr cyffredinol | **(76)** | 12,130 |
| Costau Ymgynghori Iechyd Cyhoeddus | **3,213** | 2,661 |
| Hybu Iechyd | **3,803** | 3,440 |
| Costau labordai sytoleg serfigol a chostau heblaw costau labordai | **1,546** | 1,466 |
| Gwasanaeth archwilio cartrefi nyrsio | **1,108** | 946 |
| Ymchwilio a datblygu | **12** | 79 |
| Colledion a thaliadau arbennig (gan gynnwys dyledion gwael) | **10,874** | 6,952 |
| Pensiynau a gyfnewidiwyd i bobl sy'n ymddeol yn gynnar | **4,748** | 1,877 |
| Cymorth i Goleg Staff Cymru Gyfan | **2,002** | 2,100 |
| Amrywiol | **15,739** | 11,527 |
| Llog taladwy | **-** | 153 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | **4,790** | 5,162 |
| Addasiad costau cyfalaf | **4,673** | 6,450 |
| Colledion Amhariadau a ad-dalwyd i'r ymddiriedolaethau | **2,931** | 19,891 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | **69** | 3,453 |
| Costau wrth waredu asedau sefydlog | **754** | 412 |
| Costau a dynnwyd ar eiddo anweithredol | **736** | 779 |
| | **56,922** | 79,478 |

**Costau'r awdurdodau iechyd** 6

| | 2000-2001 | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Tâl cyfarwyddwyr anweithredol | **306** | 269 |
| Cyflogau misol ac wythnosol eraill | **28,616** | 26,491 |
| Treuliau’r sefydliad | **5,354** | 5,560 |
| Cludiant a chyfarpar symudol | **179** | 197 |
| Adeiladau a chyfarpar sefydlog | **8,011** | 7,866 |
| Contractwyr allanol | **1,621** | 1,622 |
| Tâl archwilwyr - ffioedd archwilio | **652** | 571 |
| Tâl archwilwyr - ffioedd eraill | **266** | 159 |
| Costau T.G. y flwyddyn 2000 | **-** | 9 |
| Llog taladwy | **74** | 152 |
| Costau paratoi Grwpiau Iechyd Lleol | **-** | 44 |
| Costau Grwpiau Iechyd Lleol heblaw gofal iechyd | **512** | 651 |
| Amrywiol | **1,443** | 1,407 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | **365** | 375 |
| Cost amhariad | **11** | 151 |
| Addasiad costau cyfalaf – llog | **183** | 442 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | **-** | 1 |
| Costau wrth waredu asedau sefydlog | **2** | - |
| | **47,595** | 45,967 |

**Rhenti prydlesau gweithredu**

7 **Mae treuliau gweithredu yn cynnwys y symiau canlynol mewn perthynas â llogi a gweithredu rhenti prydles:**

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Llogi cyfarpar a pheiriannau | **20** | 22 |
| Prydlesau gweithredol eraill | **819** | 802 |
| | **839** | 824 |

**Ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau na ellir eu canslo yw:**

| | Tir ac adeiladau £000 | Prydlesau eraill £000 |
|---|---|---|
| **Prydlesau gweithredol sy'n dod i ben:** | | |
| O fewn blwyddyn | **11** | **-** |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | **450** | **11** |
| Ar ôl 5 mlynedd | **42** | **-** |

**Tâl Cyfarwyddwyr yr awdurdodau**

8

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Tâl Cyfarwyddwyr anweithredol | **303** | 269 |
| Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol | | |
| cyflogau sylfaenol | **1,878** | 1,846 |
| buddion | **53** | 59 |
| bonws yn ôl perfformiad | **10** | 13 |
| cyfraniadau pensiwn | **92** | 67 |
| | **2,336** | 2,254 |

Gwrthodwyd £5,000 gan un o Gyfarwyddwyr Awdurdod Iechyd Gwent. Ni thalwyd dim lwfansau yn ei le.

**Syrthiodd tâl y cyfarwyddwyr o fewn yr amrediadau canlynol:**

| | 2000-2001 Nifer | 1999-2000 Nifer |
|---|---|---|
| £ 0 - £ 5,000 | **6** | 19 |
| £ 5,001 - £ 10,000 | **29** | 18 |
| £ 10,001 - £ 15,000 | **1** | 1 |
| £ 15,001 - £ 20,000 | **1** | 2 |
| £ 20,001 - £ 25,000 | **4** | 3 |
| £ 25,001 - £ 30,000 | **-** | - |
| £ 30,001 - £ 35,000 | **-** | - |
| £ 35,001 - £ 40,000 | **3** | 2 |
| £ 40,001 - £ 45,000 | **-** | 1 |
| £ 45,001 - £ 50,000 | **-** | - |
| £ 50,001 - £ 55,000 | **-** | 3 |
| £ 55,001 - £ 60,000 | **-** | 2 |
| £ 60,001 - £ 65,000 | **3** | 1 |
| £ 65,001 - £ 70,000 | **3** | 5 |
| £ 70,001 - £ 75,000 | **4** | 7 |
| £ 75,001 - £ 80,000 | **4** | - |
| £ 80,001 - £ 85,000 | **-** | 1 |
| £ 85,001 - £ 90,000 | **2** | 1 |
| £ 90,001 - £ 95,000 | **2** | 4 |
| £ 95,001 - £ 100,000 | **3** | - |
| £ 100,001 - £ 105,000 | **1** | - |
| £ 115,001 - £ 120,000 | **1** | 1 |

**Costau'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r staff** 9

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau wythnosol a misol | **29,907** | 27,810 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **2,614** | 2,374 |
| Cyfraniadau cyflogwr i Asiantaeth Bensiynau'r NHS | **1,308** | 937 |
| Costau pensiwn eraill | **200** | 142 |
| Staff asiantaethau | **477** | 354 |
| | **34,506** | 31,617 |

Datgelodd Awdurdod Iechyd Morgannwg fuddion staff o £71,000 mewn perthynas â chynllun prydlesu ceir a oedd ar waith.

**Nifer y gweithwyr cyflogedig ar gyfartaledd (heb gynnwys staff asiantaethau) yn ystod y flwyddyn oedd:**

| | 2000-2001 Nifer ar gyfartaledd | 1999-2000 Nifer ar gyfartaledd |
|---|---|---|
| Comisiynu gofal iechyd | **500** | 493 |
| Gwasanaethau eraill yr awdurdodau | **651** | 576 |
| Aelodau Bwrdd y Grwpiau Iechyd Lleol | **220** | 229 |
| Aelodau eraill y grwpiau iechyd lleol | **224** | 134 |
| Gofal sylfaenol | **102** | 92 |
| Staff a ailgyflogwyd | **25** | 17 |
| | **1,722** | 1,541 |

Yn ystod 2000-01 cytunwyd ar ddau ymddeoliad cynnar o'r awdurdodau iechyd yng Nghymru ar sail afiechyd. Yr amcangyfrif o gostau pensiwn ychwanegol yr ymddeoliadau afiechyd hyn (o'i gyfrifo ar sail cyfartaledd a'i dalu gan gynllun Pensiwn yr NHS) yw £141,216.

**Yr oedd y nifer canlynol o uwch-weithwyr yn cael tâl (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) o fewn yr amrediadau canlynol:**

| | 2000-2001 Nifer | 1999-2000 Nifer |
|---|---|---|
| £ 40,001 - £ 45,000 | **26** | 40 |
| £ 45,001 - £ 50,000 | **31** | 18 |
| £ 50,001 - £ 55,000 | **14** | 27 |
| £ 55,001 - £ 60,000 | **17** | 9 |
| £ 60,001 - £ 65,000 | **10** | 11 |
| £ 65,001 - £ 70,000 | **14** | 17 |
| £ 70,001 - £ 75,000 | **8** | 5 |
| £ 75,001 - £ 80,000 | **5** | 3 |
| £ 80,001 - £ 85,000 | **1** | 1 |
| £ 85,001 - £ 90,000 | **2** | 3 |
| £ 90,001 - £ 95,000 | **3** | 1 |
| £ 95,001 - £100,000 | **1** | - |
| £100,001 - £105,000 | **1** | - |
| £105,001 - £110,000 | **-** | - |
| £110,001 - £115,000 | **1** | 1 |

**Asedau Sefydlog 10.1 Asedau sefydlog annirweddol**

| | £000 |
|---|---|
| **Cost amnewid gros** | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | **156** |
| Ychwanegiadau | **8** |
| Mynegeio | **4** |
| Trosglwyddiadau | **72** |
| Gwarediadau | **(14)** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **226** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | **96** |
| Ychwanegiadau | **3** |
| Mynegeio | **44** |
| Trosglwyddiadau | **62** |
| Gwarediadau | **(9)** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **196** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2001** | **30** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2000 | 60 |

**10.2 Asedau sefydlog diriaethol**

| | Tir £000 | Adeiladau, gosodiadau a ffitiadau £000 | Offer £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost amnewid gros** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 31,886 | 90,439 | 5,541 | **127,866** |
| Mynegeio | - | 1,052 | 69 | **1,121** |
| Ychwanegiadau - a brynwyd | 12 | 25 | 139 | **176** |
| Trosglwyddiadau | 15 | (15) | 5 | **5** |
| Ailbrisio | 3,499 | 483 | - | **3,982** |
| Amhariadau | (11) | - | - | **(11)** |
| Gwarediadau | (9,599) | (1,177) | (156) | **(10,932)** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **25,802** | **90,807** | **5,598** | **122,207** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | - | 14,659 | 4,774 | **19,433** |
| Mynegeio | - | 98 | 51 | **149** |
| Trosglwyddiadau | - | - | 5 | **5** |
| Gwarediadau | - | (1,101) | (153) | **(1,254)** |
| A ddarparwyd yn ystod y flwyddyn: | - | 4,847 | 264 | **5,111** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **-** | **18,503** | **4,941** | **23,444** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2001** | **25,802** | **72,304** | **657** | **98,763** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2000 | 31,886 | 75,780 | 767 | 108,433 |

**Asedau Sefydlog (parhad)**

**Mae gwerth llyfr net y tir a'r adeiladau ar 31 Mawrth 2001 yn cynnwys:**

| | **31 Mawrth 2001 £000** | 31 Mawrth 2000 £000 |
|---|---|---|
| Rhydd-ddaliad | **93,819** | 103,324 |
| Prydles Hir | **4,287** | 4,342 |
| Prydles Fer | **-** | - |
| | **98,106** | 107,666 |

**Colled netwrth waredu asedau sefydlog**

| | **2000-2001 £000** | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Gwerthoedd llyfr net yr asedau sefydlog a waredwyd | **9,683** | 14,018 |
| llai arenillion gros y gwerthu | **(9,614)** | (10,564) |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | **69** | 3,454 |

Yn y flwyddyn, talodd yr awdurdodau arenillion net o £8,858,000 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth waredu, gan gadw costau'r gwaredu, o £756,000, a dalwyd gan yr awdurdodau.

Ni ddelid dim asedau o dan brydlesau cyllid neu gontractau hurbwrcas ar ddyddiad y fantolen (1999-200 dim un brydles gyllid).

**Dyledwyr**

**11 Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | **31 Mawrth 2001 £000** | 31 Mawrth 2000 £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **138,268** | 122,634 |
| Ymddiriedolaethau'r NHS | **4,200** | 14,655 |
| Cronfa Risg Cymru | **69,330** | 59,846 |
| Dyledwyr cyfalaf | **97** | - |
| Dyledwyr eraill | **7,852** | 6,762 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion anadenilladwy | **(274)** | (418) |
| Blaendaliadau ac incwm a gronnwyd | **2,695** | 884 |
| | **222,168** | 204,363 |

**Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau'r NHS | **6,679** | 6,679 |
| Cronfa Risg Cymru | **12,691** | 13,359 |
| Dyledwyr eraill | **13** | 11 |
| | **19,383** | 20,051 |
| Cyfanswm y Dyledwyr | **241,551** | 224,414 |

**Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

**12.1**

| | **31 Mawrth 2001 £000** | 31 Mawrth 2000 £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **650** | 4,984 |
| Ymddiriedolaethau'r NHS | **35,103** | 36,907 |
| Treth incwm a nawdd cymdeithasol | **1,087** | 1,031 |
| Credydwyr heblaw'r NHS | **95,871** | 91,166 |
| Credydywr cyfalaf | **517** | 507 |
| Benthyciadau'r Cynulliad | **-** | 1,200 |
| GPFH | **6,080** | 8,317 |
| Pensiynau yn ymwneud â staff eraill | **716** | 396 |
| Croniadau ac incwm a ohiriwyd | **24,153** | 13,200 |
| Credydwyr heblaw'r NHS - colledion a thaliadau arbennig | **13,733** | 12,177 |
| Credydwyr eraill | **38,400** | 31,514 |
| | **216,310** | 201,399 |

**Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

**12.2**

| | **31 Mawrth 2001 £000** | 31 Mawrth 2000 £000 |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau'r NHS | **-** | 6,685 |
| Benthyciadau'r Cynulliad - Broceriaeth | **30,389** | 30,389 |
| Pensiynau: yn ymwneud â staff | **112** | 102 |
| | **30,501** | 37,176 |

**Y Gronfa Gyffredinol** 13

| | £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2000 | **10,085** |
| Gwarged am y flwyddyn | **16,646** |
| Ychwanegiadau | **184** |
| Trosglwyddiadau | **11** |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisio | **7,379** |
| Rhyddhau o'r Gronfa Gyffredinol | **(14,849)** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **19,456** |

**Y gronfa ailbrisio** 14

| | £000 (Wedi'i ailddatgan) |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2000 | **31,995** |
| Ailbrisio a mynegeio | **4,955** |
| Trosglwyddiad i'r Gronfa Gyffredinol | **(7,379)** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **29,571** |

**Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau** 15

| | Ar 1 Ebrill 2000 £000 | Addasiad i'r ddarpariaeth a sefydlwyd mewn blwyddyn flaenorol £000 | Llacio disgownt £000 | Yn codi yn ystod y flwyddyn £000 | A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £000 | Ar 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Esgeulustod clinigol | 50,266 | 3,100 | - | 4,057 | (10,922) | **46,501** |
| Anafiadau personol | 364 | 15 | - | (42) | 17 | **354** |
| Ffïoedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol eraill | 1,228 | 414 | - | 225 | (245) | **1,622** |
| | 51,858 | 3,529 | - | 4,240 | (11,150) | **48,477** |
| Pensiynau staff | 1,898 | - | 41 | - | (376) | **1,563** |
| Eraill | 439 | (23) | - | 508 | (341) | **583** |
| | 54,195 | 3,506 | 41 | 4,748 | (11,867) | **50,623** |

Mae'r awdurdoau iechyd yn amcangyfrif y byddant yn 2001-02 yn cael £31,572,000 ac yn 2002-03 ac wedyn yn cael £16,905,000 o Gronfa Risg Cymru mewn perthynas â cholledion a thaliadau arbennig gan gynnwys esgeulustod clinigol).

**Rhwymedigaethau annisgwyl** 16

| | **2000-2001 £000** | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| **Adroddodd yr awdurdodau rwymedigaethau annisgwyl fel a ganlyn:** | | |
| Ceisiadau cyfreithiol am esgeulustod meddygol neu esgeulustod cyflogwyr honedig | **68,834** | 66,459 |
| Eraill | **284** | - |
| | **69,118** | 66,459 |

**Colledion a thaliadau arbennig** **17**

| | Cyfraniad at Gronfa Risg Cymru £000 | Taliadau heb eu cronni o'r blaen £000 | Cynnydd/ gostyngiad yn y ddarpariaeth at daliadau yn y dyfodol £000 | Cyfanswm 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Esgeulustod clinigol | - | 533 | 16,857 | 17,390 | 28,048 |
| Anafiadau personol | - | (62) | 113 | 51 | 492 |
| Yr holl golledion a thaliadau arbennig eriall | - | 24 | - | 24 | 71 |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol eraill | - | 254 | 722 | 976 | 841 |
| Premiymau Cronfa Risg Cymru/yswiriant | 9,659 | - | - | 9,659 | 5,893 |
| Dyledion anadenilladwy | - | - | (23) | (23) | 122 |
| **Cost gros** | **9,659** | **749** | **17,669** | **28,077** | **35,467** |
| Llai: incwm a gafwyd/dyledus o Gronfa Risg Cymru | | | | (17,203) | (28,515) |
| Cost net | | | | **10,874** | **6,952** |

Nid oes cysylltiad rhwng nodyn 15 a nodyn 17 gan fod darpariaethau blaenorol bellach yn cael eu datgelu yn ôl eu gwerth gros a bod ceisiadau y bernir eu bod yn fwy na 95% yn debyg o gael eu setlo yn cael eu trin fel credydywr yn hytrach na darapriaethau.

**Dadansoddiad o gyfanswm y setliadau a wnaed yn y flwyddyn** **18**

| | Nifer yr achosion | Gor-dâl a dalwyd gan yr awdurdod iechyd £000 | Setliad o Gronfa Risg Cymru £000 | Cyfanswm 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **(i) Esgeulustod clinigol** | | | | | |
| Setliadau a wnaed yn y flwyddyn ac a gronnwyd o'r blaen | ***135*** | 845 | 18,015 | **18,860** | 6,460 |
| Setliadau a wnaed yn y flwyddyn ac heb eu cronni o'r blaen | ***81*** | 592 | 199 | **791** | 1,474 |
| | ***216*** | 1,437 | 18,214 | **19,651** | 7,934 |
| **(ii) Achosion eraill** | | | | | |
| Setliadau a wnaed yn y flwyddyn ac a gronnwyd o'r blaen | ***8*** | 52 | 110 | **162** | 464 |
| Setliadau a wnaed yn y flwyddyn ac heb eu cronni o'r blaen | ***50*** | 306 | (31) | **275** | 185 |
| | ***58*** | 358 | 79 | **437** | 649 |

Cafwyd 14 o setliadau yn fwy na £100,000, yr oedd pob un ohonynt i'w briodoli i esgeulustod clinigol, sef cyfanswm o £11,066,615. Yn ogystal, yr oedd 19 o daliadau interim cronnol yn fwy na £100,000.

**Ymrwymiadau cyfalaf**

19 Nid oedd gan yr awdurdodau iechyd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2001 (ar 31 Mawrth 2000 yr oedd y gwerth contract hefyd yn sero).

**Cysoniad y gwarged / (diffyg) â'r llifau arian gweithredu**

20

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwarged/(diffyg) net o'r gweithgareddau gweithredu | **25,504** | (3,301) |
| Addasiad ar gyfer trafodion anariannol (gweler nodyn 22) | **(1,318)** | 4,801 |
| Addasiad ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian (gweler nodyn 21) | **(8,901)** | (1,572) |
| Defnyddio darpariaethau | **(11,867)** | (7,257) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o'r gweithgareddau gweithredu** | **3,418** | (7,329) |

**Symudiad cyfalaf gweithio**

21

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| | | (Wedi'i ailddatgan) |
| Cynnydd o ran dyledwyr | **(17,137)** | (64,621) |
| Cynnydd o ran credydwyr | **8,236** | 63,049 |
| **Symudiad cyfalaf gweithio** | **(8,901)** | (1,572) |

**Trafodion anariannol**

22

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Rhyddhau o'r cronfeydd wrth gefn | **(14,848)** | (19,706) |
| Dibrisiant a dileadau eraill | **5,155** | 5,537 |
| Amhariadau asedau sefydlog | **11** | 151 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | **69** | 3,504 |
| Darpariaethau anariannol | **8,295** | 14,497 |
| Ildio arbedion GPFH yn ystod y flwyddyn | **-** | 818 |
| | **(1,318)** | **4,801** |

**Dadansoddiad gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** **23**

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog | **(184)** | (299) |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog | **9,614** | 2,027 |
| Mewnlif arian net | **9,430** | 1,728 |

**Dadansoddiad ariannu** **24**

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Arian cyfalaf | **184** | 299 |
| Ildio incwm o werthu asedau sefydlog | **(8,858)** | (1,615) |
| All-lif arian net o ariannu | **(8,674)** | (1,316) |

**Cysoniad y llif arian net â'r symudiad yn y ddyled net** **25**

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cynnydd/(gostyngiad) arian yn y cyfnod | **4,174** | (6,917) |
| Mewnlif arian - blaendaliadau broceriaeth | **-** | (16,479) |
| All-lif arian - ad-daliadau broceriaeth | **1,200** | 3,665 |
| Newid yn y dyledion net yn sgil llifau arian | **5,374** | (19,731) |
| **Dyled net ar 1 Ebrill** | **(29,646)** | (9,915) |
| **Dyled net ar 31 Mawrth** | **(24,272)** | (29,646) |

**Dadansoddiad y newidiadau yn y ddyled net** **26**

| | **Ar 1 Ebrill 2000 £000** | **Llifau arian £000** | **Ar 31 Mawrth 2001 £000** |
|---|---|---|---|
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,943 | 4,174 | **6,117** |
| Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,200) | 1,200 | **-** |
| Dyled sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | (30,389) | - | **(30,389)** |
| | (29,646) | 5,374 | **(24,272)** |

Mae'r ddyled a dynnwyd gan yr awdurdodau iechyd yn cynnwys benthyciadau broceriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â phrinder mewn llif arian.

Delir cyfanswm o £6,039 miliwn o falansau arian mewn cyfrifon yn Swyddfa'r Tâlfeistr Cyffredinol.

**Cysoniad y symudiadau yn y cronfeydd** **27**

| | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| | | (Wedi'i ailddatgan) |
| Gwarged am y flwyddyn | **16,646** | (941) |
| Trosglwyddo asedau sefydlog | **11** | - |
| Trosglwyddo cynilion deiliaid cronfeydd ymhlith ymarferwyr cyffredinol o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i'r Credydwyr | - | (11,646) |
| Ailbrisio a mynegeio | **4,955** | 6,955 |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | **184** | 299 |
| Gwarediadau a dileadau | **(9,683)** | (14,018) |
| Dibrisiant | **(5,155)** | (5,537) |
| Amhariadau asedau sefydlog | **(11)** | (151) |
| Cynnydd net yn y Cronfeydd | **6,947** | (25,039) |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill | **42,080** | 67,119 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth** | **49,027** | 42,080 |

**Trafodion partïon cysylltiedig** **28**

Bernid bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd yr awdurdodau iechyd nifer arwyddocaol o drafodion sylweddol gyda'r Cynulliad a chyrff eraill yr NHS megis ymddiriedolaethau'r NHS.

Cyflawnodd pob un o'r pum awdurdod iechyd drafodion partïon cysylltiedig  Gwelir manylion y rhain yn y cyfrifon isorweddol.

**Gwariant ar Gyffuriau** **29**

Arweiniodd prinder cyffuriau generig ym 1999-2000 at gynnydd yn yr amser a gymerodd yr Uned Gwasanaethau Rhagnodi (PSU), rhan o Atebion Iechyd Cymru (HSW) o fewn Awdurdod Iechyd Bro Taf, i brosesu presgripsiynau,

O'r herwydd, yn ystod 1999-2000, cymerodd trafodion presgripsiwn pob mis amser sylweddol hirach nag arfer i'w prosesu a chafwyd tagfa sylweddol o bresgripsiynau heb eu prisio.  Erbyn diwedd 1999-2000, yr oedd presgripsiynau'r cyfnod Ebrill 1999 i Fedi 1999 wedi'u prisio'n llawn.  Datblygwyd methodoleg samplo gan HSW i greu taliadau sylweddol gywir i fferyllwyr ar gyfer y cyfnod mis Hydref 1999 i Fawrth 2000. O dan y fethodoleg hon, cafodd pob fferyllfa fach, meddygon sy'n paratoi presgripsiynau a phractisau a weinyddir yn bersonol eu prisio'n llawn a defnyddiwyd y canlyniadau i adlewyrchu cyfanswm y presgripsiynau a baratowyd. Ar y sail hon, cyfrifwyd amcangyfrif o'r gwariant ar wasanaethau fferyllol a'i gynnwys yng nghyfrifon yr awdurdodau am 1999-2000.

Mae fferyllwyr a gytunodd i gael eu talu yn unol â'r fethodoleg samplo wedi'u talu. Caiff y rhai a oedd am gael eu talu ar sail cost wirioneddol y presgripsiynau a gyflwynwyd i'w prisio eu talu ar y sail honno pan fydd HSW yn gallu prisio'r presgripsiynau hynny (sef rywbryd yn Chwefror 2002 yn ôl y disgwyl ar hyn o bryd. Adolygwyd yr amcangyfrif o'r gwariant ar fferylliaeth a gynhwyswyd yng nghyfrifon yr awdurdodau am 1999-2000 yn ystod 2000-01 a'i ddiwygio lle'r oedd yn briodol.

Ar gyfer 2000-01 mae'r presgripsiynau wedi'u prisio'n llawn ar gyfer Ebrill 2000 i Chwefror 2001 ac mae amcangyfrif o gostau presgripsiynau Mawrth 2001 wedi'i gynnwys.

**Incwm presgripsiynau 30**

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Cyffuriau a Chyfarpar) 1989, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i gelifion dalu'r feryllydd sy'n paratoi'r presgripsiwn £6 am bob eitem mewn perthynas â phresgripsiwn meddyg. Ceir nifer fawr o esemptiadau a dim ond rhyw 9% o gleifion sy'n gorfod talu am eu presgripsiynau. Serch hynny, mae swm sylweddol o incwm yn cael ei gasglu ac mae cyfrifon y pum awdurdod iechyd am 2000-01 yn cynnwys y swm o £21.5 miliwn.

Mewn adolygiad a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr ym 1996, nodwyd colled incwm sylweddol i'r NHS yn sgil osgoi talu ffioedd presgripsiynau. Oherwydd hyn, cyflwynwyd rhestrau cyfeirio newydd wrth y amn talu yng Nghymru a Lloegr yn Ebrill 1999. O dan y trefniadau hyn, mae'n ofynnol i fferyllwyr, a oedd yn gontractwyr annibynnol, sicrhau prawf o'u hawl oddi wrth unrhyw glaf sy'n gwneud cais am esemptiad ac os na all y claf ddangos tystiolaeth o'r fath, dylai'r fferyllwyr nodi ffurflen y presgripsiwn yn unol â hynny. Mae pob ffurflen bresgripsiwn yn cael ei hanfon at Atebion Iechyd Cymru i'w phrosesu er mwyn penderfynu pa dâl sy'n daladwy i'r fferyllydd, sef cost y cyffuriau a baratowyd a ffi am eu paratoi llai'r incwm a gasglwyd oddi wrth y cleifion.

Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru wedi bod mewn sefyllfa i sefydlu systemau a gweithdrefnau cynhwysfawr i nodi ac adennill arian sy'n ddyledus, ond heb ei gasglu gan fferyllwyr annibynnol. O ganlynaid i hynny, mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn bosibl bod prinder refeniw yn y cyfrifon am fod unigolion sydd heb hawl i gael eu hesemptio rhag talu ffioedd presgripsiynau er hynny yn cael cyffuriau a chyfarpar am ddim.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithio gyda'r Awdurdodau Iechyd, Atebion Iechyd Cymru a Chyfarwyddwr Atal Twyll yng Nghymru i ddatblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2002. Hefyd, mae pob Awdurdod Iechyd yn cynnal nifer fawr o wiriadau i sicrhau bod cymaint â phosibl o incwm presgripsiynau yn cael ei gasglu. Er bod llawer o gleifion yn gwneud cais am esemptiadau o dan gategorïau anghywir, mae'r gwiriadau hyn yn dangos eu bod yn dal yn gymwys o dan gategorïau eraill.

**Addasiadau'r flwyddyn flaenorol 31**

Mae'r newidiadau yn y polisi cyfrifydda (nodyn 1.10) a'r newidiadau angenrheidiol yn y ffigurau cymaradwy ar gyfer 1999-2000 wedi arwain at leihau'r gwarged a adroddwyd am y flwyddyn ac mae gwerth y cronfeydd wrth gefn a adroddwyd ar 31 Mawrth 2000 fel a ganlyn:

| | Gwarged/(Diffyg) 1999-2000 £000 | nfeydd wrth gefn 31 Mawrth 2000 £000 |
|---|---|---|
| Yn unol â'r adroddiad | 4,938 | 64,838 |
| Gan gynnwys y Bwrdd Ymarfer Deintyddol | (458) | (10,909) |
| Addasiad i gydnabod incwm gohiriedig | (5,421) | (11,849) |
| Wedi'i ailddatgan | (941) | 42,080 |

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL - YMDDIRIEDOLAETHAU'R NHS YNG NGHYMRU

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL AG ADRAN 98(4) DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn, onid yw'r cyd-destun yn gofyn fel arall, golyga "Ymddiriedolaethau'r NHS" bob un o Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru.

2. Mae'r Trysorlys yn cyfarwyddo y caiff cyfrif o Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru, a grynhoir gan gyfuno, ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000 a blynyddoedd ariannol dilynol. Caiff sylfaen y paratoi a ffurf y cyfrifon eu gosod allan yn y paragraffau a'r Atodlenni canlynol.

## SYLFAEN Y PARATOI

3 Caiff cyfrif cyfunol o Awdurdodau Iechyd ei baratoi o gyfrifon archwiliedig Awdurdodau Iechyd y mae'n ymwneud â hwy a bydd yn cydymffurfio â'r canlynol:

(a) arfer cyfrifo a gaiff ei dderbyn yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP)
(b) gofynion cyfrifo a datguddio Deddf y Cwmnïau;
(c) yr holl safonau cyfrifo perthnasol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo neu a fabwysiadwyd ganddo, cyn belled ag y maent yn briodol i'r NHS yng Nghymru a'u bod mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y cyfrifon eu paratoi ar ei chyfer;
(d) yr holl arweiniad perthnasol a roddwyd yn llyfryn Cyfrifon yr Awdurdod Iechyd;
(e) y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd gan gynnwys asedau sefydlog ameu gwerth i'r busnes o gyfeirio at gostau cyfredol; a stociau ar y gost ailosod gyfredol net isaf (neu gost hanesyddol os nad yw hyn yn sylweddol wahanol) a chost sylweddoladwy net.

## FFURF A CHYNNWYS

4 Bydd cyfrif cyfunol yr Awdurdodau Iechyd yn cynnwys rhagair, cyfrif ar gyfer incwm a gwariant, mantolen, datganiad llif arian a datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion a gydnabyddir, gan gynnwys y cyfryw nodiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

5 Bydd cyfrif cyfunol yr Awdurdodau Iechyd yn rhoi golwg gwir a theg ar y sefyllfa fel ag y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a golwg ar yr incwm a'r gwariant, yr enillion a'r colledion, a'r llifau arian yn ystod y flwyddyn.

6 Caiff y rhagair a'r fantolen eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifo a'u dyddio.

**AMRYWIOL**

7 Caiff y cyfarwyddyd ei ailgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

8 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli'r cyfarwyddyd a ddyddiwyd 16 Chwefror 1999.

*B Glicksman*
**SWYDDOG CYFRIFO'R TRYSORLYS**
16 Hydref 2000

**Atodlen 1**

## CYMHWYSO GOFYNION CYFRIFO A DATGUDDIO DEDDF Y CWMNÏAU A'R GOFYNION CYFRIFO

**Deddf y Cwmnïau**

1 Ni fydd yr eithriadau datguddio a ganiateir gan Ddeddf y Cwmnïau yn gymwys i'r NHS oni chymeradwyir hwy yn benodol gan y Trysorlys.

2 Mae Deddf y Cwmnïau yn gwneud datguddio gwybodaeth benodol yn Adroddiad y Cyfarwyddwr yn ofynnol. I'r graddau y mae'n briodol i'r NHS, caiff y wybodaeth sy'n ymwneu â chyrff y NHS ei chynnwys ym mharagraff 33 o Atodlen 4 i Ddeddf y cwmn?au.

3 Nid yw'n ofynnol i gyrff y NHS ddarparu'r wybodaeth am gost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff 33 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cwmnïau.

**Safonau Cyfrifo**

4 Nid yw'n ofynnol i gyrff y NHS gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion y gost hanesyddo fel y disgrifir yn FRS 3.

**Atodlen 2**

**GOFYNION YCHWANEGOL**

1 Bydd y rhagair yn cynnwys datganiad i'r perwyl fod y cyfrifon cyfunol wedi eu paratoi i gydymffurfio â Chyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 98(4) Deddf NHS 1977.

2 Bydd y rhagair hefyd yn cynnwys disgrifiad o gefndir statudol a phrif swyddogaethau cyrff y NHS y mae yn ymwneud â hwy ynghyd ag arolwg teg o'u gweithgareddau gweithredol ac ariannol, a chrynodeb o'u perfformiad yn erbyn targedau.

3 Bydd y cyfrif cyfunol a'r fantolen ar gyfer incwm a gwariant yn edrych ar y cyfrif fformat 2 ar gyfer colled ac elw a'r fantolen fformat 1 a bennwyd yn atodlen 4 i Ddeddf y Cwmnïau, wedi'u haddasu fel y bo'n briodol.

# Cyfrif Cryno Awdurdodau Iechyd Cymru: 2000-01

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Rhagymadrodd

1. Mae cyfrif cryno awdurdodau iechyd Cymru wedi'i baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 98(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Cydgrynhoir ynddo ganlyniadau ariannol y pum awdurdod iechyd a gwasanaethau deintyddol cyffredinol y Bwrdd Ymarfer Deintyddol yng Nghymru.

2. Mae rhai a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio wedi archwilio'r cyfrifon isorweddol a baratowyd gan yr awdurdodau iechyd a chan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol. Ffurfio barn ar y cyfrif cryno yw fy nyletswydd i.

3. Yr wyf wedi cyfyngu elfen rheoleidd-dra fy marn archwilio ar gyfrif cryno 2000-01 yr Awdurdodau Iechyd yng Nghymru mewn perthynas â diffyg posibl yn y refeniw o daliadau presgripsiynau sy'n ddyledus i'r NHS yng Nghymru nad oes modd ei fesur. Nodir cefndir y penderfyniad hwnnw yn yr adroddiad hwn. Yr wyf wedi rhoi barn ddiamod ar gyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru ar gyfer 2000-01 ac ar y cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth gan gyrff yr NHS yng Nghymru.

### Incwm presgripsiynau

4. Bob mis, bydd fferyllwyr annibynnol yn anfon yr holl bresgripsiynau y maent wedi'u paratoi at Atebion Iechyd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am brisio'r cyffuriau a'r cyfarpar a  baratoir.  Mae Atebion Iechyd Cymru, sy'n rhan o Awdurdod Iechyd Bro Taf, yn cyfrif y taliadau sy'n ddyledus i bob fferyllydd am yr eitemau a baratowyd. Wrth gyfrifo, bydd Atebion Iechyd Cymru yn cymryd i ystyriaeth y taliadau presgripsiwn a gasglwyd gan y fferyllydd i'w tynnu o unrhyw daliad sy'n ddyledus i'r fferyllydd. Bydd Atebion Iechyd Cymru yn trosglwyddo'r wybodaeth am brisiau i'r awdurdodau iechyd er mwyn i bob un ohonynt roi'r taliadau priodol i'r fferyllwyr yn eu hardal.

5. Yn fy adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, *Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2000, amcangyfrifais

fod rhyw £15 miliwn y flwyddyn o bosibl yn cael ei golli am fod unigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol yn hawlio esemptiad rhag talu am bresgripsiynau. I roi'r ffigur hwn yn ei gyd-destun, £21.6 miliwn oedd yr incwm a gynhyrchwyd drwy gyfrwng taliadau presgripsiwn yng Nghymru yn ystod 2000-01.

6. Mae fy amcangyfrif o £15 miliwn y flwyddyn wedi'i seilio ar ddadansoddiad manwl o ychydig o dan 2,000 o bresgripsiynau a brisiwyd ar gyfer mis Medi 1999. Mewn naw y cant o'r achosion hynny lle'r oedd unigolyn wedi hawlio esemptiad rhag taliadau presgripsiwn, gwelwyd nad oedd yna hawl i gael esemptiad prima facie. Cafwyd nifer o resymau posibl am y diffyg hawl. Er enghraifft, adeg paratoi'r presgripsiynau, nid oedd yr unigolion hynny yn cael budd-dâl nawdd cymdeithasol cymwys neu nid oedd ganddynt Dystysgrif Esemptio ddilys oddi wrth yr Awdurdod Iechyd.

7. Nid oedd gan awdurdodau iechyd Cymru systemau a gweithdrefnau i ddod o hyd i arian a oedd yn ddyledus i NHS Cymru a'i adennill pan nad oedd wedi'i gasglu gan fferyllwyr annibynnol. Er hynny, drwy weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ac Atebion Iechyd Cymru, mae'r awdurdodau iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2002.

## Barn archwilio ar gyfrifon y pum awdurdod iechyd

8. Daeth yr archwilwyr a benodwyd ar gyfer y pum awdurdod iechyd i'r casgliad bod y dystiolaeth a oedd ar gael yn gyfyngedig a hynny am nad oedd y diffyg refeniw ym mhob awdurdod unigol wedi'i fesur yn ystadegol. Nid oedd dim gweithdrefnau eraill y gallent eu mabwysiadu i benderfynu maint y diffyg yn 2000-01 yn sicrach. Gan hynny, maent wedi cyfyngu elfen rheoleidd-dra eu barn archwilio ym mhob un o'r pum achos. Mae'r math hwn o gyfyngu ar hyd a lled y gwaith archwilio yn cael ei ddefnyddio pan fydd rhyw fater yn sylweddol, ond heb fod yn treiddio drwy'r cyfrifon yn gyfan gwbl. Yr wyf wedi gosod cyfyngiad tebyg ar fy marn innau ar gyfrif cryno'r awdurdodau iechyd yng Nghymru ar gyfer 2000-01.

9. Ni fuasai'n briodol i'r archwilwyr penodedig ddefnyddio'r dadansoddiad o'm hadroddiad i fel dull ystadegol ddilys o amcangyfrif lefel y refeniw a gollwyd yn 2000-01. Presgripsiynau un mis yn y flwyddyn ariannol flaenorol a

ddadansoddwyd, a hynny at ddibenion archwilio gwerth am arian, ac nid oedd y dulliau casglu data na'r dulliau dadansoddi wedi'u dylunio i greu amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol a fyddai'n ddilys yn ystadegol.

## Y Bwrdd Ymarfer Deintyddol

10. Mae archwilwyr penodedig y Bwrdd Ymarfer Deintyddol wedi amodi eu barn hwythau ar gyfrif Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol Cymru a Lloegr. Mae gan y Bwrdd weithdrefnau a ddyluniwyd i fonitro, ac os yw'n briodol, i gyfyngu ar wariant amhriodol. Mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn, gwneir amcangyfrifon o lefel y gwariant amhriodol o bob ffynhonnell, gan gynnwys gwallau gweinyddol, camddeall rheoliadau, gwaith amhriodol neu waith gwael a lladrata bwriadol.

11. Ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd yn 2000-01, mae'r Bwrdd wedi amcangyfrif y gallai rhwy £70 miliwn fod wedi'i dalu fel hyn, a bron hanner mewn cysylltiad â cheisiadau amhriodol gan gleifion am esemptiadau rhag taliadau, neu am beidio â thalu. Nid oes modd dyrannu'r ffigur hwn rhwng Cymru a Lloegr ond £90.9 miliwn oedd cyfanswm y gwariant ar weithgareddau'r Bwrdd yng Nghymru ar gyfer 2000-01. Yng nghyd-destun y cyfrif cryno, sy'n cynnwys gwariant o £2.9 biliwn, nid yw'n debyg y bydd lefel debygol y gwariant amhriodol o'r fath yng Nghymru yn sylweddol. Gan hynny, nid wyf wedi'i grybwyll yn benodol yn fy marn ar y cyfrif hwnnw.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Rhagfyr 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

# Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru

# Datganiad o gyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddog Cyfrif

Mae Adran 98(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail y mae'r Trysorlys yn eu cyfarwyddo. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ran y Cynulliad gan y Swyddog Cyfrif ar sail cronnol ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar sefyllfa ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru ar ddiwedd y flwyddyn, a'u hincwm a'u gwariant, cyfanswm eu henillion a'u colledion cydnabyddedig a'u llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cynulliad:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifydda a roddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifydda a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifydda addas yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol;
- datgan a gafodd y safonau cyfrifydda cymwys eu dilyn neu beidio a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol

Mae'r Trysorlys wedi penodi Cyfarwyddwr NHS Cymru yn Swyddog Cyfrif ar gyfer cyfrif cryno ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano a'i chyfrifoldeb am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrif Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

# Datganiad ar y System Rheolaeth Ariannol Fewnol

Fel Swyddog Cyfrif Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwariant yr NHS, fi sy'n gyfrifol am gynnal system effeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol. Fi hefyd sy'n penodi Swyddog Atebol pob un o ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru. Cyfrifoldeb pob Swyddog Atebol yw sicrhau bod system effeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol ar gael yn eu sefydliadau unigol.

Mae'r systemau hyn yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig, ac nid sicrwydd absoliwt, fod asedau'n cael eu diogelu, trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n iawn, a bod camgymeriadau neu afreoleidd-dra sylweddol naill ai yn cael eu hatal neu eu darganfod o fewn cyfnod amserol.

Yr wyf wedi rhoi canllawiau i bob Swyddog Atebol ynghylch llywodraethu corfforaethol a systemau ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol, gan nodi yn benodol yr isafswm safonau rheoli a ddylai gael eu sefydlu. Yr wyf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Swyddog Atebol wneud datganiad ar eu system rheolaeth ariannol fewnol, wedi'i ategu ag adroddiad gan archwilydd, gyda'u cyfrifon blynyddol.

Am y flwyddyn ariannol 2000-01, gwnaeth holl ymddiriedolaethau'r NHS ddatganiad ar y system ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol. Dywedodd pedair fod ganddynt wendidau yn eu systemau neu eu bod heb fodloni'r isafswm safonau ar gyfer rheolaeth drwy gydol y flwyddyn. Yr wyf wedi adolygu'r datganiadau hyn ac adroddiadau'r archwilwyr sy'n cyd-fynd â hwy ac yr wyf yn fodlon bod y materion a godwyd yn cael sylw priodol gan y Swyddogion Atebol.

Mae'r system ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reoli gyson, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, sy'n cynnwys gwahanu dyletswyddau ac amrywiol lefelau dirprwyo. Yn benodol, mae'r system yn cynnwys:

* Systemau cyllidebu cynhwysfawr;
* Adolygiadau rheolaidd gan dîm uwch-reolwyr fy Nghyfarwyddiaeth ar adroddiadau ariannol misol, chwarterol a blynyddol, sy'n dynodi'r perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon a wnaed;
* Pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
* Canllawiau pendant ar reoli buddsoddiadau cyfalaf; a
* Gweithdrefnau i ofalu am reolaeth prosiectau.

| Trosglwyddiad enillion/(colledion) a wireddwyc | (66) | - | 66 | - |
| Asedau a roddwyd yn y flwyddyn | - | 3,465 | - | **3,465** |
| Dibrisiant a gwaredu asedau a roddwyd | - | (2,894) | - | **(2,894)** |
| Amhariadau | (1,087) | (14) | - | **(1,101)** |
| Symudiadau eraill ar y cronfeydd | (667) | - | - | **(667)** |
| **Ar 31 Mawrth** | **84,764** | **24,257** | **(2,560)** | **106,461** |

Mae'r addasiadau adeg ailgyflunio ar 1 Ebrill 2000 yn adlewyrchu trosglwyddo asedau o hen Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Cylch ac Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche i Ymddiriedolaeth NHS newydd Caerdydd a'r Fro. Wrth ailgyflunio, gosodwyd y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn ar sero. Gwnaed addasiadau canlyniadol i'r cyfalaf difidend cyhoeddus a freiniwyd yn yr ymddiriedolaeth newydd.

Mae'r amhariadau'n cynnwys y costau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa o roddion wrth gefn o amhariadau ar yr asedau sefydlog.

Addasiad ar gronfa ailbrisio Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn sgil ailddosbarthu asedau yw'r symudiadau eraill ar y cronfeydd.

**Cysoniad y gwarged gweithredu â'r mewnlif arian o'r gweithgareddau gweithredu** **14**

| | 2000-2001 | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | | Wedi'i ailddatgan |
| | **£000** | £000 |
| Gwarged gweithredu | **78,935** | 79,150 |
| Taliadau mewn perthynas ag ad-drefnu/ailstrwythuro sylfaenol | **-** | (372) |
| Dibrisiant | **68,093** | 74,877 |
| Amhariadau asedau sefydlog | **5,521** | 5,764 |
| Trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn o asedau a roddwyd | **(2,894)** | (2,996) |
| Cynnydd mewn stociau | **(269)** | (6,517) |
| Cynnydd o ran dyledwyr | **(14,606)** | (36,896) |
| Cynnydd mewn credydywr a darpariaethau | **14,851** | 31,268 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | **149,631** | 144,278 |

**Cysoniad y llif arian net â'r symudiad ar y ddyled net** **15**

| | 2000-2001 | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | | Wedi'i ailddatgan |
| | **£000** | £000 |
| Cynnydd mewn arian | **2,250** | 102 |
| (Mewnlif)/all-lif arian o reoli'r adnoddau hylifol | **(2,450)** | 500 |
| Mewnlif arian o ddyled newydd | **(32,712)** | (37,024) |
| All-lif arian o ddyled a ad-dalwyd a thaliadau cyfalaf prydlesau cyllid | **37,580** | 30,576 |
| Newid mewn dyled net o ganlyniad i lifau arian | **4,668** | (5,846) |
| Newidiadau anariannol mewn dyled | **(654)** | 399,233 |
| Dyled net ar 1 Ebrill | **(15,828)** | (409,215) |
| **Dyled net ar 31 Mawrth** | **(11,814)** | (15,828) |

**Dadansoddiad o'r newidiadau yn y ddyled net** **16**

| | **Ar 1 Ebrill 2000 (wedi'i ailddatgan)** | **Llifau arian** | **Newidiadau anariannol** | **Ar 31 Mawrth 2001** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11,991 | 2,250 | - | **14,241** |
| Buddsoddiadau asedau cyfredol | 2,450 | (2,450) | - | **-** |
| Broceriaeth awdurdodau iechyd | (10,329) | 2,150 | - | **(8,179)** |
| Blaendaliadau benthyciadau cyfalaf difidend cyhoeddus | (14,901) | 2,415 | - | **(12,486)** |
| Prydlesau cyllid | (5,039) | 303 | (654) | **(5,390)** |
| | **(15,828)** | **4,668** | **(654)** | **(11,814)** |

**Cysoniad symudiadau mewn cronfeydd** **17**

| | 2000-2001 | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwarged am y flwyddyn | **81,620** | 80,612 |
| Cyfalaf difidend cyhoeddus - difidendau taladwy | **(73,988)** | (81,318) |
| | **7,632** | (706) |
| Mynegeio ac ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | **17,629** | 66,752 |
| Benthyciadau a chyfalaf difidend cyhoeddus newydd | **208,977** | 1,008,225 |
| Cyfalaf difidend cyhoeddus a benthyciadau oddi wrth y Llywodraeth a ad-dalwyd ac a ddilëwyd | **(206,372)** | (1,075,105) |
| Addasiadau eraill adeg ailgyflunio | **(7,923)** | 92,477 |
| Symudiadau ar y gronfa wrth gefn o asedau a roddwyd | **571** | 2,370 |
| Amhariad asedau sefydlog | **(1,101)** | (2,771) |
| Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill | **(667)** | - |
| Ychwanegiad net at gronfeydd y Llywodraeth | **18,746** | 91,242 |
| Cronfeydd y Llywodraeth ar 1 Ebrill | **1,226,168** | 1,134,926 |
| **Cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth** | **1,244,914** | 1,226,168 |

**Ymrwymiadau cyfalaf** **18**

Swm yr ymrwymiadau o dan gontractau gwariant cyfalaf ar ddyddiad y fantolen oedd £19,727,000 (1999-2000: £18,629,000).

**Rhwymedigaethau annisgwyl** **19**

Ar 31 Mawrth 2001, yr oedd ceisiadau â gwerth posibl o £149,814 (31 Mawrth 2000: £130,781,000) wedi'u gwneud yn erbyn ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru. Mae dadlau ynghylch y ceisiadau hyn ac ni ellir penderfynu ar rwymedigaeth ariannol yr ymddiriedolaethau, os o gwbl, nes datrys y dadlau. Yn unol â gofynion FRS12, ni wnaed dim darpariaeth yng nghyfrifon 2000-01 ar gyfer yr eitemau hyn.

Yn ogystal, adroddodd 14 ymddiriedolaeth gyfanswm o £257,658,000 o rwymedigaethau annisgwyl mewn perthynas ag adeiladau (31 Mawrth 2000: £121,000,000). Fel uchod, ni wnaed dim darpariaeth yn y cyfrifon hyn ar gyfer yr eitemau hyn.

Gallai ceisiadau eraill mewn ymgyfreitha godi yn y dyfodol yn sgil achosion a ddigwyddodd heb roi gwybod amdanynt. Ni ellir pennu'r gwariant a allai godi o geisiadau o'r fath yn rhesymol gywir ac nid oes darpariaeth wedi'i gwneud ar eu cyfer.

**Colledion a thaliadau arbennig** **20**

| | Nifer yr achosion | Gwerth £ |
|---|---|---|
| Esgeulustod clinigol | 597 | 11,709,893 |
| Anafiadau personol | 660 | 3,571,926 |
| Yr holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 2,271 | 1,733,085 |
| | **3,528** | **17,014,904** |
| Ac o'r rhain, achosion dros £100,000 | | |
| Esgeulustod clinigol | 17 | 4,935,948 |
| Anafiadau personol | 4 | 473,564 |
| Yr holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 1 | 800,000 |
| | **22** | **6,209,512** |
| Hefyd, o'r rhain, achosion o daliadau interim cronnol dros £100,000 | | |
| Esgeulustod clinigol | 13 | 3,871,581 |
| Anafiadau personol | 3 | 497,822 |
| | **16** | **4,369,403** |

**Trafodion partïon cysylltiedig** **21**

Bernir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yn bartïon cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnfodd yr ymddiriedolaethau nifer arwyddocaol o drafodion sylweddol gyda'r Cynulliad a chyrff eraill yr NHS.

Datgelodd pedair ymddiriedolaeth drafodion partïon cysylltiedig eraill: Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a’r Fro, Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg, Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-orllewin Cymru ac Ymddiriedolaeth NHS Abertawe. Yn 2000-01, cyfanswm y trafodion rhwng partïon cysylltiedig ac aelodau byrddau a staff uwch allweddol oedd taliadau o £5,656,175 a derbyniadau o £1,040,595. Ceir mwy o fanylion am y trafodion yng nghyfrifon yr ymddiriedolaethau unigol.

**Trafodion cyllid preifat** **22**

Yn ystod 2000-01, datgelodd 6 ymddiriedolaeth drafodion cyllid preifat: Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg, Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent, Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen ac Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a Rhondda.

Adroddodd yr ymddiriedolaethau hyn ddeg cynllun PFI.  Mae dau gynllun ar y fantolen ac wyth oddi arni. Yr amcangyfrif o gyfanswm gwerth cyfalaf y rhain yw £109,530,000. Cynhwyswyd £3,236,000 o fewn treuliau gweithredu’r cynlluniau hyn. Mae’r ymddiriedolaethau wedi ymrwymo i dalu £13,137,000 mewn taliadau blynyddol o dan y cynlluniau. Ceir mwy o fanylion yng nghyfrifon yr ymddiriedolaethau unigol.

**Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL -**
**YMDDIRIEDOLAETHAU'R NHS YNG NGHYMRU**

**CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL AG ADRAN 98(4) DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977**

1. Mae'r Trysorlys yn cyfarwyddo y caiff cyfrif o Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru, a grynhoir gan gyfuno, ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol. Caiff sylfaen y paratoi a ffurf y cyfrifon eu gosod allan yn y paragraffau a'r Atodlenni canlynol.

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn, onid yw'r cyd-destun yn gofyn fel arall, golyga "Ymddiriedolaethau'r NHS" bob un o Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru.

## SYLFAEN Y PARATOI

3. Caiff cyfrif cyfunol o Ymddiriedolaethau'r NHS ei baratoi o gyfrifon archwiliedig Ymddiriedolaethau'r NHS y mae'n ymwneud â hwy a bydd yn cydymffurfio â'r canlynol:

(a) arfer cyfrifo a gaiff ei dderbyn yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP)
(b) gofynion cyfrifo a datguddio Deddf y Cwmnïau;
(c) yr holl safonau cyfrifo perthnasol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo neu a fabwysiadwyd ganddo, cyn belled ag y maent yn briodol i'r NHS yng Nghymru a'u bod mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y cyfrifon eu paratoi ar ei chyfer;
(d) yr holl arweiniad perthnasol a roddwyd yn y llyfryn Cyfrifon Ymddiriedolaethau'r NHS (Cymru) – Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon;
(e) y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd gan gynnwys asedau sefydlog am eu gwerth i'r busnes o gyfeirio at gostau cyfredol; a stociau ar y gost ailosod gyfredol net isaf (neu gost hanesyddol os nad yw hyn yn sylweddol wahanol) a chost sylweddoladwy net.

## FFURF A CHYNNWYS

4. Bydd cyfrif cyfunol Ymddiriedolaethau'r NHS yn cynnwys rhagair, cyfrif ar gyfer incwm a gwariant, mantolen, datganiad llif arian a datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion a gydnabyddir, gan gynnwys y cyfryw nodiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

5. Bydd cyfrif cyfunol Ymddiriedolaethau'r NHS yn rhoi golwg gwir a theg ar y sefyllfa fel ag y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a golwg ar yr incwm a'r gwariant, yr enillion a'r colledion, a'r llifau arian yn ystod y flwyddyn.

6 Caiff y rhagair a’r fantolen eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifo a’u dyddio.

**AMRYWIOL**

7 Caiff y cyfarwyddyd ei ailgynhyrchu fel atodiad i’r cyfrifon cyhoeddedig.

8 Mae’r cyfarwyddyd hwn yn disodli’r cyfarwyddyd a ddyddiwyd 16 Chwefror 1999.

*B Glicksman*
**SWYDDOG CYFRIFO’R TRYSORLYS**
16 Hydref 2000

**Atodlen 1**

**CYMHWYSO GOFYNION CYFRIFO A DATGUDDIO DEDDF Y CWMNÏAU A'R GOFYNION CYFRIFO**

**Deddf y Cwmnïau**
1 Ni fydd yr eithriadau datguddio a ganiateir gan Ddeddf y Cwmnïau yn gymwys i'r NHS oni chymeradwyir hwy yn benodol gan y Trysorlys.

2 Mae Deddf y Cwmnïau yn gwneud datguddio gwybodaeth benodol yn Adroddiad y Cyfarwyddwr yn ofynnol. I'r graddau y mae'n briodol i'r NHS, caiff y wybodaeth sy'n ymwneud â chyrff y NHS ei chynnwys yn y rhagair.

3 Nid yw'n ofynnol i gyrff y NHS ddarparu'r wybodaeth am gost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff 33 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cwmnïau.

**Safonau Cyfrifo**
4 Nid yw'n ofynnol i gyrff y NHS gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion y gost hanesyddol fel y disgrifir yn FRS 3.

**Atodlen 2**

**GOFYNION YCHWANEGOL**
1 Bydd y rhagair yn cynnwys datganiad i'r perwyl fod y cyfrifon cyfunol wedi eu paratoi i gydymffurfio â Chyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 98(4) Deddf NHS 1977.

2 Bydd y rhagair hefyd yn cynnwys disgrifiad o gefndir statudol a phrif swyddogaethau cyrff y NHS y mae yn ymwneud â hwy ynghyd ag arolwg teg o'u gweithgareddau gweithredol ac ariannol, a chrynodeb o'u perfformiad yn erbyn targedau.

3 Bydd y cyfrif cyfunol a'r fantolen ar gyfer incwm a gwariant yn edrych ar y cyfrif fformat 2 ar gyfer colled ac elw a'r fantolen fformat 1 a bennwyd yn atodlen 4 i Ddeddf y Cwmnïau, wedi'u haddasu fel y bo'n briodol.

# Cronfeydd a ddelir ar Ymddiriedaeth gan yr Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru

# Datganiad o Gyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddog Cyfrif

Mae Adran 98(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail y mae'r Trysorlys yn eu cyfarwyddo. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ran y Cynulliad gan y Swyddog Cyfrif ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar y cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru ar ddiwedd y flwyddyn, a'u hadnoddau sy'n dod i mewn a'u defnydd o adnoddau a'u llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cynulliad:

• cadw at y cyfarwyddyd cyfrifydda a roddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifydda a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifydda addas yn gyson;

• gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol;

• datgan a gafodd y safonau cyfrifydda cymwys eu dilyn neu beidio a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a

• pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Cyfarwyddwr NHS Cymru yn Swyddog Cyfrif ar gyfer Cyfrif Cryno y cronfeydd a ddelir ar ymddiriedaeth gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano a'i chyfrifoldeb am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrif Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 79 i 89 o dan Adran 98(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mae'r datganiadau ariannol cryno hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd drwy ailbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifydda a nodir ar dudalennau 82 i 84.

**Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrif a'r Archwilydd**

Fel y disgrifir ar dudalen 77, Cyfarwyddwr NHS Cymru, fel Swyddog Cyfrif, sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir odani. Mae'r Swyddog Cyfrif hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Mae fy nyletswyddau i, fel archwilydd annibynnol, yn cael eu harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Yr wyf yn adrodd fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir odani. Yr wyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

**Sail y farn archwilio**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad ariannol yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau a datgeliadau trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn golygu asesu'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan y Swyddog Cyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac asesu a yw'r polisïau cyfrifydda yn briodol i'r amgylchiadau, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gyflawni er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall. Yr wyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yw cyflwyniad yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol wrth lunio fy marn.

**Y farn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa'r cronfeydd a ddelir ar ymddiriedolaeth gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru ar 31 Mawrth 2001 ac o'r adnoddau a oedd yn dod i mewn a sut yr oeddent yn cael eu defnyddio yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi'u paratoi yn briodol yn unol ag Adran 98(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wneir odani gan y Trysorlys.

Nid oes dim sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganaidau ariannol hyn.

*John Bourn*
Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Rhagfyr 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

# Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | | 2000-2001 | | | | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cronfeydd anghyfyngedig** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cronfeydd gwaddol** | **Cyfanswm** | |
| | **Nodiadau** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| **Adnoddau'n dod i mewn** | | | | | | |
| Rhoddion | | 3,280 | 5,792 | - | **9,072** | 8,770 |
| Cymynroddion | | 946 | 1,180 | - | **2,126** | 1,657 |
| Incwm buddsoddiadau | | 499 | 903 | 3 | **1,405** | 1,626 |
| Incwm arall | | 363 | 116 | - | **479** | 510 |
| **Cyfanswm yr adnoddau'n dod i mewn** | | 5,088 | 7,991 | 3 | **13,082** | 12,563 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | | | |
| Cost cynhyrchu cronfeydd | | 38 | 28 | - | **66** | 126 |
| Grantiau taladwy | 2 | 3,548 | 5,947 | 9 | **9,504** | 10,685 |
| Gweithgareddau i hybu amcanion elusennol | 3 | 886 | 2,601 | 145 | **3,632** | 3,604 |
| Rheoli a gweinyddu | | 112 | 248 | 1 | **361** | 358 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | 4.1 | 4,584 | 8,824 | 155 | **13,563** | 14,773 |
| **Adnoddau net yn dod i mewn/(yn mynd allan) cyn trosglwyddiadau** | | 504 | (833) | (152) | **(481)** | (2,210) |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | | (776) | 776 | - | **-** | - |
| **Adnoddau net (yn mynd allan) cyn ailbrisiadau a gwaredu asedau buddsoddi** | | (272) | (57) | (152) | **(481)** | (2,210) |
| **Enillion/(colledion) adeg ailbrisio eu hasedau sefydlog eu hunain** | | - | - | 48 | **48** | 448 |
| **Enillion/(colledion) adeg ailbrisio a gwaredu asedau buddsoddi** | | (791) | (2,001) | - | **(2,792)** | 1,519 |
| **Symudiadau net yn y cronfeydd** | | (1,063) | (2,058) | (104) | **(3,225)** | (243) |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | 14 | 15,010 | 24,326 | 7,442 | **46,778** | 47,021 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth** | 14 | **13,947** | **22,268** | **7,338** | **43,553** | 46,778 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 89 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

# Y Fantolen ar 31 Mawrth 2001

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2001** | 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 6 | **7,215** | 7,303 |
| Buddsoddiadau | 7.1 | **29,448** | 32,114 |
| | | **36,663** | 39,417 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 8 | **640** | 1,684 |
| Buddsoddiadau ac adneuon tymor byr | 13 | **3,683** | 3,278 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 13 | **5,204** | 4,682 |
| | | **9,527** | 9,644 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddy | 9 | **2,637** | 2,283 |
| **Asedau cyfredol net** | | **6,890** | 7,361 |
| **Asedau Net** | | **43,553** | 46,778 |
| **Cronfeydd yr Elusennau** | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | 14 | **7,338** | 7,442 |
| Cyfyngedig | 14 | **22,268** | 24,326 |
| Anghyfyngedig | 14 | **13,947** | 15,010 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd** | 14 | **43,553** | 46,778 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 89 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

*Ann Lloyd*
Swyddog Cyfrif

30 Tachwedd 2001

# Datganiad Llif Arian am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2001

| | Nodiadau | **2000-2001** £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif/(all-lif) net arian o weithgareddau gweithredu** | 12 | **1,053** | (2,342) |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog buddsoddi | 7.1 | **(8,669)** | (5,186) |
| Taliadau o werthu asedau sefydlog buddsoddi | 7.2 | **8,543** | 6,448 |
| **Mewnlif/(all-lif) net arian wariant cyfalaf** | | **(126)** | 1,262 |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | |
| Taliadau i gaffael buddsoddiadau asedau cyfredol ac adneuon | | **(544)** | (7,283) |
| Derbyniadau o werthu buddsoddiadau asedau cyfredol ac adneuon | | **139** | 7,873 |
| **Mewnlif/(all-lif) net arian o reoli adnoddau hylifol** | | **(405)** | 590 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian** | 13 | **522** | (490) |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 89 yn rhan o'r cyfrif hwn.*

# Nodiadau ar y Cyfrifon

**Polisïau cyfrifydda**

**1.1 Y confensiwn cyfrifydda**

Mae’r cyfrif hwn wedi’i baratoi yn unol â'r Datganiad Arferion a Argymhellir – Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau - a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000 gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, ac â'r Arferion a’r Polisïau Cyfrifydda Safonol ar gyfer yr NHS a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

**1.2 Adnoddau'n dod i mewn**

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y corff NHS i hybu ei amcanion cyffredinol. Mae cronfeydd cyfyngedig yn amodol ar gyfyngiad penodol a osodwyd gan y rhoddwyr neu gan bwrpas yr apêl. Mae cronfeydd gwaddol yn adnoddau cyfalaf lle y mae'n ofynnol, yn gyfreithiol, i’r corff NHS eu buddsoddi neu eu cadw ar gyfer y dibenion a bennwyd gan y rhoddwyr. Mae'r polisïau a ddilynir, sy'n ymdrin ag incwm, cymorth gwirfoddol a rhoddion, fel a ganlyn:

**a. Rhoddion arian**

Mae'r holl adnoddau sy'n dod i mewn yn cael eu cynnwys yn llawn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol cyn gynted ag y gellir bodloni'r tri ffactor canlynol:

i. hawl – yn codi pan fydd adnoddyn penodol yn dderbyniadwy neu pan ddaw hawl elusen yn orfodadawy yn gyfreithiol;

ii. sicrwydd – pan geir sicrwydd rhesymol y bydd yr adnoddyn sy'n dod i mewn yn dod i law;

iii. mesur – pan all gwerth ariannol yr adnoddau sy'n dod i mewn gael ei fesur yn ddigon dibynadwy;

**b. Rhoddion mewn da ac asedau a roddwyd**

i. Dim ond ar ôl eu dosbarthu y cynhwysir asedau a roddwyd gan yr elusen i'w dosbarthu ymhellach yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol;

ii. caiff asedau a roddwyd i'w defnyddio gan yr elusen (e.e. eiddo i'w feddiannu gan yr elusen ei hun) eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel adnoddau sy'n dod i mewn pan gânt eu derbyn;

iii. caiff rhoddion mewn da a roddwyd ar ymddiriedaeth i'r elusen i'w troi yn arian i’w ddefnyddio wedyn eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod cyfrifydda pan gaiff y rhodd ei gwerthu.

Ym mhob achos, naill ai amcangyfrif rhesymol o'u gwerth i'r elusen neu'r swm a wireddwyd mewn gwirionedd yw'r swm a gynhwysir yn y cyfrifon ar gyfer rhoddion mewn da ac asedau a roddwyd.

**1.3 Asedau sefydlog diriaethol**

**a. Cyfalafu**

Mae'r holl asedau sy'n syrthio i'r categorïau canlynol yn cael eu cyfalafu:

i. Asedau diriaethol y gellir eu defnyddio am fwy na blwyddyn, ac sydd â chost sy'n gyfwerth â £5,000 neu'n fwy na hynny;

ii. grwpiau o asedau diriaethol sy'n gyd-ddibynnol neu a gâi eu darparu neu eu hamnewid, fel rheol, fel grŵp â chyfanswm eu gwerth yn fwy na £5,000 a'u gwerth unigol yn £250 neu fwy.

**b. Prisio**

Caiff asedau sefydlog eu prisio fel a ganlyn:

i. Prisir tir, adeiladau, gosodiadau a ffitiadau yn unol â'r Datganiadau o Arferion Prisio Asedau a'r Nodiadau cyfarwyddyd a baratoir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cynhelir prisiadau yn broffesiynol bob pum mlynedd. Gwnaed y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 1999. Rhwng y prisiadau hyn, defnyddir mynegai addas i ailbrisio'r asedau;

ii. prisir offer yn ôl p'un bynnag yw'r isaf: amcangyfrif o gost net eu hamnewid neu'r swm a all gael ei adennill;

iii. prisir asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn ôl eu cost gyfredol.

**c. Dibrisiant**

Ac eithrio tir, mae asedau sefydlog diriaethol nad ydynt yn cael eu dal fel eiddo buddsoddi yn cael eu dibrisio yn ôl rhandaliadau blynyddol cyfwerth dros weddill eu bywyd tybiedig.

**d. Asedau a roddwyd**

Mae asedau a roddwyd yn cael eu cyfalafu pan gânt eu derbyn ar sail y gost amnewid lawn.

**1.4 Asedau sefydlog buddsoddi**

i. Ni chaiff asedau eiddo eu dibrisio ond yn hytrach dangos eu pris ar y farchnad agored. Cynhelir prisiadau gan briswyr proffesiynol bob pum mlynedd. Gwnaed y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 1999 heblaw ailbrisiad, ym mis Medi 1999 ar gyfer un eiddo buddsoddi yn perthyn i Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen. Rhwng y prisiadau, defnyddir amcangyfrif gorau'r Ymddiriedolwyr o'u gwerth cyfredol ar y farchnad agored. Caiff yr holl enillion a cholledion a wireddwyd ac nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio'r buddsoddiadau asedau sefydlog eu cofnodi yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y maent yn codi;

ii. mae stociau a chyfrannau a ddyfynnir yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu pris canol marchnad, heb gynnwys difidendau;

iii. mae asedau sefydlog buddsoddi eraill yn cael eu cynnwys yn ôl amcangyfrif gorau'r Ymddiriedolwyr o'u gwerth cyfredol ar y farchnad.

**1.5 Cyfraniadau pensiwn**

Caiff cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwyr i gynllun Blwydd-dâl yr NHS a chynlluniau eraill eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y mae'r rhwymedigaethau yn codi.

**1.6 Adnoddau a wariwyd**

Mae'r grantiau taladwy yn cael eu cynnwys yn y Datganaid o Weithgareddau Ariannol cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth debygol wedi codi.

**1.7 Newid yn sail y cyfrifydda**

Nid yw sail y cyfrifydda wedi ei newid yn ystod y flwyddyn.

**1.8 Cronfeydd ymddiriedaeth**

O dan Adran 90 o Ddeddf yr NHS 1977 mae gan yr awdurdodau iechyd bwer i dderbyn, dal a gweinyddu cronfeydd ar ymddiriedaeth at bob diben neu at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'r gwasaneth iechyd.  Mae Adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1997 yn ymestyn y pwer hwn i ymddiriedolaethau'r NHS.

**Adnoddau a wariwyd - grantiau taladwy** **2**

| | 2000-2001 | | | | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd anghyfyngedig** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cronfeydd gwaddol** | **Cyfanswm** | |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Lles ac amwynderau'r cleifion | 2,148 | 1,421 | 9 | **3,578** | 3,569 |
| Lles ac amwynderau'r staff | 549 | 856 | - | **1,405** | 1,255 |
| Ymchwil | 335 | 762 | - | **1,097** | 874 |
| Cyfraniadau i'r NHS | 64 | 1,871 | - | **1,935** | 4,099 |
| Amrywiol (266 o grantiau) | 452 | 1,037 | - | **1,489** | 888 |
| | **3,548** | **5,947** | **9** | **9,504** | 10,685 |

**Adnoddau a wariwyd - Gweithgareddau i hybu amcanion elusennol** **3**

| | 2000-2001 | | | | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd anghyfyngedig** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cronfeydd gwaddol** | **Cyfanswm** | |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Lles ac amwynderau'r cleifion | 233 | 507 | 11 | **751** | 769 |
| Lles ac amwynderau'r staff | 137 | 193 | - | **330** | 378 |
| Ymchwil | 3 | 315 | - | **318** | 616 |
| Cyfraniadau i'r NHS | 398 | 75 | - | **473** | 369 |
| Amrywiol (44 o daliadau) | 115 | 1,511 | 134 | **1,760** | 1,472 |
| | **886** | **2,601** | **145** | **3,632** | 3,604 |

Mae ffigurau cymaradwy y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r gofynion newydd ynghylch cyflwyno adroddiadau a geir yn y Datganiad o Arferion a Argymhellir a dosbarthiadau mwy priodol gan fyrddau Cyfarwyddwyr Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru.

**Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** **4.1**

| | 2000-2001 | | | | | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Grantiau taladwy** | **Cost cynhyrchu'r cronfeydd** | **Gweith-gareddau i hybu amcanion elusennol** | **Rheoli a gwein-yddu** | **Cyfanswm** | |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Staff | - | - | 587 | - | **587** | 582 |
| Dibrisiant | - | - | 134 | 2 | **136** | 134 |
| Taliadau i'r archwilwyr | | | | | | |
| - Ffioedd archwilio | | | | 55 | **55** | 56 |
| - Ffioedd eraill | - | - | - | 5 | **5** | 5 |
| Gwasanaethau a brynwyd oddi wrth gyrff NHS | - | 40 | - | 241 | **281** | 241 |
| Eraill | 9,504 | 26 | 2,911 | 58 | **12,499** | 13,755 |
| | **9,504** | **66** | **3,632** | **361** | **13,563** | 14,773 |

**Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd (parhad)**

**4.2 Costau staff**

| | **2000-01** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyflogau misol ac wythnosol | **526** | 524 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **39** | 39 |
| Costau pensiwn eraill | **22** | 19 |
| | **587** | 582 |
| Nifer y cyflogeion amser-llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd: | **31** | 42 |

**Dadansoddiad yr asedau net**

**5**

| | **2000-2001** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd anghyfyngedig** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cronfeydd gwaddol** | **Cyfanswm** | 1999-2000 |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Asedau sefydlog diriaethol | 17 | 6 | 7,192 | **7,215** | 7,303 |
| Buddsoddiadau | 9,906 | 19,536 | 6 | **29,448** | 32,114 |
| Asedau cyfredol | 4,553 | 4,830 | 144 | **9,527** | 9,644 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (529) | (2,104) | (4) | **(2,637)** | (2,283) |
| | **13,947** | **22,268** | **7,338** | **43,553** | 46,778 |

**Asedau sefydlog diriaethol**

**6**

| | **Tir ac adeiladau rhydd-ddaliol** | **Gosod-iadau, fitiadau ac offer** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2000** | 7,678 | 6 | **7,684** |
| Ailbrisiadau | 48 | - | **48** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2001** | **7,726** | **6** | **7,732** |
| **Dibrisiant cronnol** | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2000** | 379 | 2 | **381** |
| Y gost am y flwyddyn | 134 | 2 | **136** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2001** | **513** | **4** | **517** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2001** | **7,213** | **2** | **7,215** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2000 | 7,299 | 4 | 7,303 |
| Cost hanesyddol ar 31 Mawrth 2001 | 6,004 | 4 | 6,008 |

**Asedau sefydlog**

| 7.1 Buddsoddiadau | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill** | **32,114** | 31,836 |
| Llai: Gwarediadau am eu gwerth agoriadol ar y farchnad | **(8,401)** | (6,130) |
| Ychwaneger: Caffaeliadau yn ôl eu cost/prisiad | **8,669** | 5,199 |
| (Colled)/enilliad net nas gwireddwyd adeg ailbrisio | **(2,934)** | 1,201 |
| Trosglwyddo buddsoddiadau i gyrff NHS eraill | **-** | 8 |
| **Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth** | **29,448** | 32,114 |
| Cost hanesyddol ar 31 Mawrth | **24,967** | 22,763 |

| 7.2 Derbyniadau o werthu asedau sefydlog buddsoddi | **2000-2001** | 1999-2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog buddsoddi | **8,543** | 6,448 |
| Gwaredu ar werth y farchnad | **(8,401)** | (6,130) |
| Enilliad a wireddwyd adeg gwaredu | **142** | 318 |

| 7.3 Cyfansoddiad y portffolio ar 31 Mawrth | **31 Mawrth 2001** | 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Eiddo buddsoddi | **255** | 250 |
| Buddsoddiadau a restrwyd ar y gyfnewidfa stoc | **22,860** | 29,068 |
| Arian a ddelir fel rhan o'r portffolio buddsoddi | **1,149** | 1,208 |
| Buddsoddiadau mewn cronfa adneuo/buddsoddi gyffredin | **4,303** | - |
| Buddsoddiadau eraill | **881** | 1,588 |
| | **29,448** | 32,114 |

Yn y Deyrnas Unedig y delir pob buddsoddiad.

**Dyledwyr**

**8 Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | 31 Mawrth 2001 | 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Dyledwyr masnach | **43** | 69 |
| Blaendaliadau | **-** | 2 |
| Incwm a gronnwyd | **334** | 1,186 |
| Dyledwyr eraill | **263** | 427 |
| | **640** | 1,684 |

Mae *dyledwyr eraill* yn cynnwys nifer fawr o eitemau isel eu gwerth nad yw'n hawdd eu dadansoddi o dan benawdau'r dyledwyr eraill

**Credydwyr**

**9 Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | 31 Mawrth 2001 | 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Credydwyr masnach | **192** | 272 |
| Symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau atodol a chysylltiedig | **61** | 61 |
| Credydwyr eraill | **1,957** | 1,674 |
| Coniadau | **427** | 276 |
| | **2,637** | 2,283 |

Mae *credydwyr eraill* yn cynnwys nifer fawr o eitemau isel eu gwerth nad yw'n hawdd eu dadansoddi o dan benawdau'r credydwyr eraill

**Rhwymedigaethau annisgwyl**

10 Nid oedd dim rhwymedigaethau annisgwyl sylweddol yn bodoli ar ddyddiad y fantolen.

**Ymrwymiadau**

**11 Mae gan yr elusennau yr ymrwymiadau canlynol ar 31 Mawrth**

| | 31 Mawrth 2001 | 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Projectau elusennol | **13** | 16 |
| Cyfalaf | **46** | 300 |
| Eraill | **250** | 369 |
| | **309** | 685 |

Mae'r gostyngiad yn yr ymrwymiadau hyd at 31 Mawrth 2001 yn deillio, yn rhannol, o dalu ymrwymiadau o fewn y flwyddyn.

**Cysoniad y newidiadau mewn adnoddau â'r mewnlif arian net o'r gweithgareddau gweithredu** **12**

| | 31 Mawrth 2001 | 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Adnoddau net yn mynd allan cyn ailbrisiadau a gwaredu buddsoddiadau | **(481)** | (2,210) |
| Cost dibrisiant | **136** | 134 |
| Colled ar waredu asedau a buddsoddiadau | **-** | (5) |
| Gostyngiad/(cynnydd) o ran dyledwyr | **1,044** | (672) |
| Cynnydd o ran credydwyr | **354** | 424 |
| Rhoddion anariannol | **-** | (13) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | **1,053** | (2,342) |

**Dadansoddiad y cronfeydd net** **13**

| | 1 Ebrill 2000 | Llifau arian | 31 Mawrth 2001 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 4,682 | 522 | **5,204** |
| Buddsoddiadau asedau cyfredol | 3,278 | 405 | **3,683** |
| | **7,960** | **927** | **8,887** |

**Symudiadau yn y cronfeydd, fesul math** **14**

| | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Gwaddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Ar 1 Ebrill 2000** | 15,010 | 24,326 | 7,442 | **46,778** |
| Adnoddau'n dod i mewn | 5,088 | 7,991 | 3 | **13,082** |
| Adnoddau a wariwyd | (4,584) | (8,824) | (155) | **(13,563)** |
| Symudiadau eraill yn y flwyddyn | (1,567) | (1,225) | 48 | **(2,744)** |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **13,947** | **22,268** | **7,338** | **43,553** |

Mae digon o adnoddau'n cael eu cadw ar ffurf briodol i bob cronfa gael ei defnyddio o fewn unrhyw gyfyngiad a osodwyd.

**Trafodion partïon sy'n perthyn** **15**

Yn ystod y flwyddyn, nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr nac aelodau o'r staff rheoli allweddol na phartïon sy'n perthyn iddynt wedi cyflawni unrhyw drafodion sylweddol gyda'r ymddiriedolaethau elusennol. Dangosir manylion pob trafodiad gan barti sy'n perthyn yng nghyfrifon yr ymddiriedolaethau elusennol unigol.

## CRONFEYDD Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL A DDELIR AR YMDDIRIEDAETH (CYMRU)

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS

1. Mae'r Trysorlys, yn unol ag Adran 98 (4) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 gan hynny yn rhoi'r cyfarwyddyd canlynol.

2. Yn y cyfarwyddyd hwn, onid yw'r cyd-destun yn gofyn fel arall –

golyga'r "Ddeddf" Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

mae'r "Awdurdodau" yn cyfeirio at yr holl Awdurdodau Iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaethau'r NHS, yr holl Ymddiriedolwyr Arbennig a benodwyd yn canlyn Adran 29(1) Deddf Aildrefnu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1973 ac Adran 95(1) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel y'i haddaswyd) ac unrhyw ymddiriedolwyr ar gyfer ymddiriedolaeth yr NHS a benodwyd yn canlyn Adran 11 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

3. Yn unol ag Adran 98(4) y Ddeddf, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn darparu cyfrif cryno o gronfeydd yr Awdurdodau a ddelir ar ymddiriedaeth yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1997 a blynyddoedd ariannol dilynol, fel y nodwyd yn y paragraffau a'r Atodlen ganlynol.

4. Bydd y cyfrifon cryno yn cynnwys:

(a) rhagair
(b) datganiad o'r gweithgareddau ariannol
(c) mantolen
(d) datganiad o'r llif arian
(e) y cyfryw nodiadau a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff 5 isod.

5. Bydd y cyfrif cryno yn rhoi golwg gwir a theg ar y gweithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a'r sefyllfa fel ag y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd yn dangos y cronfeydd elusennol a'r cronfeydd nad ydynt yn elusennol a ddelir ar ymddiriedaeth ar wahân. Yn amodol ar y gofyniad hwn, bydd y cyfrif cryno hefyd yn bodloni'r canlynol, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir:

(a) gofynion cyfrifo a datguddio Deddf y Cwmnïau;

(b) arfer cyfrifo a gaiff ei dderbyn yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys safonau cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo neu a fabwysiadwyd ganddo;

(c) yr holl arweiniad perthnasol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau;

(d) unrhyw ofynion datguddio a chyfrifo y gallai'r Trysorlys eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd;

cyn belled ag y mae'r rhain yn briodol i gronfeydd yr Awdurdodau a ddelir ar ymddiriedaeth a'u bod mewn grym am y flwyddyn ariannol y caiff y cyfrif cryno ei baratoi ar ei chyfer.

6. Caiff y cyfarwyddyd cyfrifo hwn ei ailgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrif cryno cyhoeddedig.

Llofnodwyd *Jamie Mortimer*

**SWYDDOG CYFRIFO'R TRYSORLYS**

Dyddiwyd 1 Mai 1997

**ATODLEN**

**Rhagair**

1. Bydd y rhagair yn cynnwys datganiad i'r perwyl i'r cyfrif cryno gael ei baratoi yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 98 (4) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r Fantolen**

2. Bydd y datganiad o weithgareddau ariannol a'r fantolen yn dilyn y fformat penodedig a ddangoswyd yn y Datganiad Arfer Cymeradwy – Cyfrifo gan Elusennau.

**Nodiadau i'r Cyfrif**

3. Bydd y nodiadau i'r cyfrif yn cynnwys manylion o'r polisïau cyfrifo a fabwysiadwyd.

4. Caiff nodiadau eglurhaol pellach eu darparu lle bynnag y bo angen er mwyn galluogi defnyddwyr i ddeall y cyfrifon yn gywir.

**Cymhwyso Gofynion Deddf y Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo**

5. Ni fydd yr eithriadau datguddio a ganiateir gan Ddeddf y Cwmnïau yn gymwys i'r NHS oni chymeradwyir hwy yn benodol gan y Trysorlys.

6. Nid yw'n ofynnol i'r cyfrifiad cryno gynnwys cyfrif ar gyfer incwm a gwariant.

7. Nid yw'n ofynnol i'r cyfrif cryno gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion y gost hanesyddol fel y disgrifir yn FRS 3.

**Eraill**

8. Caiff y rhagair a'r fantolen eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifo a'u dyddio.